



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

3/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

13/01/2023

Gwerthusiad: Treialon Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digital 978-1-80535-260-0

Teitl: Gwerthusiad: Treial Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol
Isdeitl: Mis Ionawr i fis Mai 2022

Awdur(on): Erica Bertolotto, Tave Browett, Gabriela Freitas,
Catherine Goddard, Julia Griggs, Martin Manuch a Katharine
McKenna

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bertolotto, E., Browett, T., Freitas, G., Goddard, C.,
Griggs J., Manuch M., McKenna, K. (2022). Gwerthusiad: Treial Sesiynau
Cyfoethogi Ychwanegol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad
3/2023. Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/gwerthuso-treialu-sesiynau-
cyfoethogi-ychwanegol](https://www.llyw.cymru/gwerthuso-treialu-sesiynau-cyfoethogi-ychwanegol)

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn
Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â: I gael mwy o wybodaeth cysylltwch
â:

Y Gangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion:llyw.cymru

Tabl cynnwys

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	8
Canfyddiadau allweddol	8
Ystyriaethau o ran data	11
2. Cyflwyniad.....	13
Cefndir.....	13
Nodau ac amcanion	14
Dyluniad y rhaglen.....	15
Sefydlu'r rhaglen.....	16
Cydlynu'r rhaglen.....	16
Y lleoliadau a gymerodd ran.....	17
Amcanion y gwerthusiad	18
3. Methodoleg	20
Recriwtio cyfranogwyr ac ystyriaethau moesegol.....	22
Cywain, rheoli a dadansoddi data	23
Cyfyngiadau o ran data	24
4. Canfyddiadau	27
Y niferoedd a fanteisiodd ar y rhaglen.....	27
Nifer y lleoliadau a gymerodd ran.....	27
ALI na fu iddynt gymryd rhan.....	28
5. Cynllunio ar lefel lleoliadau.....	30
Sail resymegol dros gymryd rhan	30
Dylunio'r rhaglen ar lefel y lleoliad.....	31
Cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr	33
Grwpiau targed.....	34
Darparwyr.....	35
Ffactorau galluogi a rhwystrau	37

	Dysgu o gynllunio ar lefel y lleoliad	39
6.	Cyflwyno.....	41
	Lansio'r rhaglen	41
	Y gweithgareddau a gyflwynwyd	41
	Lleoliadau ac amseru	43
	Nifer fu'n manteisio a phresenoldeb	44
	Arweiniad a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru	46
	Ffactorau galluogi a rhwystrau	46
	Dysgu o'r cyflwyno.....	47
	Ystyriaethau o ran cynladwyedd.....	48
7.	Profiadau plant a phobl ifanc.....	51
	Cofrestru a chymhellion i gymryd rhan	51
	Gweithgareddau'r Treial	52
	Amser a dreuliwyd mewn gweithgareddau'r Treial	54
	Profiadau o weithgareddau'r Treial.....	54
	Barn ar staff lleoliadau/darparwyr fu'n rhedeg y gweithgareddau	56
	Barn ar dreulio mwy o amser yn y lleoliad	56
	Argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol	56
	Barn rhieni/gofalwr	57
	Argymhellion rhieni ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.....	59
8.	Deilliannau	61
	Deilliannau i ddysgwyr.....	61
	Cymdeithasu a lles	61
	Sgiliau newydd a gweithgarwch corfforol	63
	Gwelliannau mewn ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ysgol.....	64
	Cyfleoedd i siarad Cymraeg	67
	Deilliannau i leoliadau/ staff lleoliadau.....	67
	Deilliannau i rieni/gofalwyr a theuluoedd	69

Deilliannau i ddarparwyr	72
9. Canfyddiadau Allweddol	73
10. Argymhellion	78
Parhau i gyflwyno'r rhaglen dros yr hir dymor	78
Amser paratoi hirach ar gyfer cynllunio a sefydlu	78
Parhau i gynnig hyblygrwydd o ran dylunio a darparu	78
Cryfhau cefnogaeth i leoliadau	79
Gwella cyrhaeddiad a chynwysoldeb	79
Argymhellion gwerthuso	79
Llyfryddiaeth.....	80
Atodiad 1. Offer ymchwil	81

Rhestr tablau

Tabl 1. Dulliau a sampl a gyflawnwyd	20
Tabl 2. Darperir dadansoddiad o ymatebwyr i'r arolwg rhieni yn ôl lleoliad isod:	21
Tabl 3. Darperir dadansoddiad o ymatebwyr yr arolwg cyn ac ar ôl y Treial yn ôl lleoliad isod:.....	22

Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Y lleoliadau a gymerodd ran yn y Treial.....	17
Ffigur 2: Amllder dysgwyr fu'n mynychu gweithgareddau'r Treial	44
Ffigur 3: Sut y byddai plant/pobl ifanc wedi treulio'u hamser pe na bai'r Treial wedi'i gynnig	52
Ffigur 4: Gweithgareddau'r Treial y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt.....	53
Ffigur 5: Nifer o ddyddiau y cymerodd plant/pobl ifanc ran yn y Treial yn ystod wythnos arferol	54
Ffigur 6: Mwynhad plant a phobl ifanc o'r Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol	55
Ffigur 7: Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad rhieni/gofalwyr i'w plant fynychu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol yn y tymor hir	59
Ffigur 8: Barn rhieni/gofalwyr o ddeilliannau'r Treial i gyfranogwyr	63
Ffigur 9: Barn rhieni ar sut roedd y Treial yn cefnogi plant.....	66
Ffigur 10: Deilliannau canfyddedig y Treial ar gyfer rhieni/gofalwyr	70

Cydnabyddiaeth

Hoffai tîm Ecorys ddiolch i swyddogion addysg yr awdurdodau lleol (ALI), arweinwyr ysgolion, staff ysgolion, darparwyr, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr am roi'n hael o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad a chymryd rhan ynddo. Hebddynt, ni fuasai modd cynnal y gwerthusiad hwn.

Rydym hefyd yn diolch i dîm cyfan Ecorys a gefnogodd ac a gyflwynodd weithgareddau gwerthuso: Tave Browett, Gabriela Freitas, Valdeep Gill, Catherine Goddard, Julia Griggs, Joel Hooper, Helen Main, Martin Manuch, Brendan Parker, Jenny Williams, ac Erica Bertolotto. Cefnogodd Jane Nicholas a Kelly Davies, swyddogion Ecorys ar y gwerthusiad drwy gynnal tasgau ymchwil yn yr iaith Gymraeg (e.e. cyfweiliadau, is-grwpiau bord gron). Goruchwyliodd Katharine Mckenna gyflwyniad y gwerthusiad, gan sicrhau ansawdd drwyddi draw.

Rhestr termau

Acronym	Diffiniad
GCD	Grant Cyflymu Dysgu
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CCA	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg
CyfA	Cyfarwyddwr Addysg
MoDd	Mynegiad o Ddiddordeb
EPI	Education Policy Institute
CGA	Cyngor Gweithlu Addysg
AB	Addysg Bellach
ALI	Awdurdod Lleol
CA	Cynorthwy-ydd Addysgu
LIC	Llywodraeth Cymru
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru


Treial o Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol deilliannau allweddol

14 lleoliad dysgu wedi cymryd rhan
8 cynradd, 3 uwchradd, 2 ysgol pob oed, 1 Sefydliad AB




91 y cant o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael **hwyl**

Cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn **amrywiaeth eang o weithgareddau**:



Adroddodd plant a phobl ifanc amrywiaeth o **fuddion o gymryd rhan**:



Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr Ôl-Treial (Sylfaen=329 (gweithgareddau), 299-279, (buddion, dim ond BI7+ a holwyd am les, 84)

Crynodeb gweithredol

- 1.1 Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn ariannu Gaeaf Llawn Lles i helpu teuluoedd, plant a phobl ifanc i ymadfer yn sgil pandemig y coronafeirws (COVID-19). Fel rhan o hyn, darparwyd hyd at £2m ar gyfer treialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol er mwyn cyflwyno gweithgareddau a phrofiadau i gefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu, datblygu sgiliau, ac ar gyfer lles corfforol a meddyliol ar draws lleoliadau dysgu gwirfoddol ('lleoliadau' o hyn ymlaen) yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.
- 1.2 Nod y Treial o'r Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol oedd profi i ba raddau y byddai ychwanegu awr i'r diwrnod ysgol yn helpu dysgwyr i ddal i fyny â'r cyfleoedd cymdeithasol, academaidd a lles yr oeddent wedi'u colli oherwydd pandemig y coronafeirws.

Canfyddiadau allweddol

- 1.3 Cymerodd un deg pedwar o leoliadau ran yn y Treial. Methiant arweinwyr awdurdodau lleol (ALI) i rannu gwybodaeth am y Treial â nhw i osgoi eu gorlethu, am fod pwysau yn sgil pandemig y coronafeirws eisoes yn effeithio ar gapasiti staff, oedd y prif resymau a roddwyd gan leoliadau dros beidio â chymryd rhan..
- 1.4 Bu i'r lleoliadau a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y Treial lenwi Mynegiant o Ddiddordeb (MoDd), a dyfarnwyd y cyllid i bawb a wnaeth gais. Hysbyswyd lleoliadau gan Lywodraeth Cymru eu bod wedi cael eu dewis i dderbyn cyllid ac fe'u cefnogwyd gan Gyngorydd y Treial trwy gydol y broses gynllunio a gweithredu.
- 1.5 Un o'r prif gymhellion i leoliadau gymryd rhan yn y Treial oedd rhoi profiadau a chyfleoedd i ddysgwyr na fyddent fel arall wedi cael mynediad atynt, o ystyried cyd-destun anfantais gymdeithasol ac economaidd y lleoliadau fu'n cymryd rhan. Ymhlith y cymhellion eraill oedd gwella canfyddiadau a phrofiadau plant/pobl ifanc o'r ysgol, ail-ennyn diddordeb dysgwyr yn yr ysgol ac annog presenoldeb, a chreu cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu â'u cyfoedion.
- 1.6 Bu i bob lleoliad dargedu set benodol o grwpiau blwyddyn, fel arfer blynyddoedd pontio, a chynigiwyd y gweithgareddau i bob plentyn/person ifanc o fewn y grŵp/grwpiau a ddewiswyd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd yn heriol

gwneud y ddarpariaeth yn gwbl gynhwysol ar gyfer plant/pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu'r rhai mwyaf agored i niwed. Roedd lleoliadau'n defnyddio cymysgedd o staff a darparwyr allanol i gynnal gweithgareddau'r Treial.

- 1.7 Roedd lleoliadau'n gwerthfawrogi'n gryf yr hyblygrwydd a gynigiwyd gan y Treial i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau gan ddibynnu ar argaeledd lleol darparwyr/staff, yr adnoddau ar gael a diddordebau ac anghenion penodol dysgwyr. Adlewyrchwyd hyn yn amrywiaeth y gweithgareddau, lleoliadau ac amseru'r gweithgareddau a gynigiwyd.
- 1.8 Cyflwynodd y Treial ystod eang iawn o weithgareddau, gan gynnwys llawer o weithgareddau chwaraeon a chorfforol, gweithgareddau creadigol, gemau, gweithgareddau awyr agored, a theithiau. Roedd y lleoliadau'n rhoi'r cynnig i ddysgwyr ddewis pa weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt.
- 1.9 Roedd cofrestru a phresenoldeb ar gyfer y sesiynau cyfoethogi yn gyson uchel. Roedd rhai lleoliadau'n cynnig cymhellion i gymryd rhan i ddechrau (e.e. teithiau sinema) ond sylweddolwyd fel arfer nad oedd angen gwneud hyn gan fod plant a phobl ifanc eisiau cymryd rhan.
- 1.10 Y prif resymau pam y bu'r Treial yn llwyddiannus yn gyffredinol oedd ymgysylltiad staff a pharodrwydd i ddarparu gweithgareddau, yr hyblygrwydd i ddefnyddio cyllid i ddarparu cludiant a bwyd, a gallu rhieni/gofalwyr i gasglu plant ar ôl y gweithgareddau. Y rhwystrau allweddol i leoliadau oedd amserlenni tynn a chynnydd arall yn y coronafeirws, a'r prif rwystrau oedd yn cadw plant/pobl ifanc rhag mynychu oedd diffyg cludiant adref ar ôl y gweithgareddau, neu anallu rhieni i gasglu nifer o blant ar amserau gwahanol.
- 1.11 Mynegodd staff lleoliadau ac arweinwyr lleoliadau'r Treial (h.y. y person fu'n trefnu gweithgareddau Treial mewn lleoliadau) bryderon y byddai darparu gweithgareddau cyfoethogi dros nifer cyfyngedig o wythnosau yn codi disgwyliadau ymhlith plant/pobl ifanc a theluoedd na fyddent yn cael eu bodloni yn y tymor hir, a allai arwain at siom. Fodd bynnag, o ystyried llwyddiant y gweithgareddau ymhlith dysgwyr, roedd llawer o leoliadau wedi dechrau archwilio cyfleoedd i ymestyn y gweithgareddau y tu hwnt i gyfnod y Treial.

- 1.12 Dywedodd y mwyafrif llethol (91 y cant) o blant a phobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg ar ôl y Treial eu bod wedi cael hwyl, a dywedodd 84 y cant fod y Treial wedi eu helpu i gymdeithasu â'u cyfoedion. Dywedodd cyfranogwyr hefyd bod y Treial wedi eu cyflwyno i weithgareddau newydd ac wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau newydd.
- 1.13 Roedd rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial yn bositif iawn am y cyfle i'w plant gymryd rhan. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau am ddim ac y gallai eu plant ddewis beth roedden nhw eisiau ei wneud. Gwnaethant grybwyll hefyd fod y Treial yn darparu cyfle i'w plant roi cynnig ar weithgareddau na fyddent wedi gallu eu gwneud fel arall, yn bennaf oherwydd rhwystrau ariannol.
- 1.14 Dywedodd dysgwyr, darparwyr a rhieni mai'r prif ddeilliannau i ddysgwyr a gymerodd ran yn y Treial oedd cymdeithasu â chyfoedion a gwell lles, datblygu sgiliau newydd, bod yn weithgar yn gorfforol; a gwelliannau mewn ymddygiad, presenoldeb ysgol a dangos diddordeb yn yr ystafell ddosbarth.
- 1.15 Amlygodd rhieni/gofalwyr (yn enwedig y rhai mewn gwaith) bwysigrwydd cael lle diogel i'w plant fod ar ôl yr ysgol, lle'r oedd modd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol. Pwysleisiodd rhieni/gofalwyr hefyd bwysigrwydd y ffaith bod y gweithgareddau am ddim ar y pwynt y cawsant eu cynnig.
- 1.16 Argymhellion allweddol o'r gwerthusiad:
- **Parhau i ddarparu'r gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol yn y tymor hir.** Hoffai plant a phobl ifanc weld y gweithgareddau'n cael eu cynnig ar sail tymor hir a chael eu hystyngi i grwpiau blwyddyn eraill yn eu lleoliadau.
 - **Amser paratoi hirach ar gyfer cynllunio a sefydlu** i alluogi mwy o leoliadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol. Byddai mwy o amser rhwng cyhoeddi cyllid a lansio'r rhaglen yn cefnogi cynllunio effeithiol. Byddai mwy o amser i ddylunio a chynllunio'r ddarpariaeth yn rhoi rhagor o gyfleoedd i gyd-gynhyrchu'r rhaglen gyda dysgwyr.
 - **Parhau i gynnig hyblygrwydd o ran dylunio a darparu.** Dylai'r gefnogaeth a ddarperir gan Gyngorydd y Treial barhau i gael ei chynnig mewn

rhaglenni yn y dyfodol. Roedd lleoliadau'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i ddarparu cludiant, bwyd, ac i brynu cyfarpar.

- **Cryfhau'r gefnogaeth i leoliadau.** Byddai cyflwyno rhaglenni tebyg yn y dyfodol yn elwa o ddod ag adnodd ychwanegol i mewn i reoli'r prosesau caffael a chydlynu.
- **Gwella cyrhaeddiad a chynwysoldeb.** Gallai cyd-gynhyrchu'r rhaglen gyda phlant/pobl ifanc gynyddu eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad, gan y byddai'n amlygu rhai o'r rhwystrau i bresenoldeb yn y cam cynllunio, a chynnig cyfle i'w goresgyn.

Ystyriaethau o ran data

- 1.17 Casglwyd y rhan fwyaf o'r data rhwng Mai a Gorffennaf 2022, ar ôl diwedd y Treial. Fe wnaeth yr oedi leihau gallu'r tîm ymchwil i gyrraedd cyfranogwyr ymchwil a chynyddu'r siawns o anghywirdeb wrth gofio.
- 1.18 Dyluniwyd a gweinyddwyd yr arolwg gwaelodlin plant/pobl ifanc cyn i Ecorys gael ei benodi fel y sefydliad gwerthuso. Felly, dim ond nifer bach o gwestiynau oedd yn caniatáu cymharu cyn ac ar ôl rhwng arolygon gwaelodlin ac ar ôl y Treial.
- 1.19 Cynhaliwyd llai o gyfweiliadau â staff lleoliadau/darparwyr a rhieni/gofalwyr na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd oedi cyn cysylltu â'r lleoliadau, ac yn rhannol oherwydd y cais gan Lywodraeth Cymru i gyfranogwyr ymchwil roi eu manylion cyswllt mewn ffurflen ddiogel er mwyn sicrhau sampl mwy diduedd. Dewiswyd rhai cyfranogwyr ymchwil gan arweinwyr lleoliadau. Roedd y sampl o rieni y cyfwelwyd â hwy yn fach (5) ac mae'n debygol y bydd gogwydd hunan-ddethol.
- 1.20 Oherwydd amserlen y rhaglen, nid oedd yn bosibl casglu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb y dysgwyr fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Treial. Tra bod pob lleoliad dysgu a gyfrannodd mewn ardal o dan anfantais cymdeithasol ac economaidd, nid oedd yn bosibl adrodd ar wahaniaethau mewn cyfraddau cymryd rhan neu fuddiannau canfyddedig rhwng dysgwyr llai a mwy breintiedig.

1.21 Cysylltwyd â phob ALI nad oedd yn cymryd rhan am gyfweiliad, ac roedd y 6 chyfweiliad a gwblhawyd gyda'r rhai a gytunodd i gymryd rhan, felly mae'n debygol y bydd gogwydd hunan-ddethol. Ni chyfwelwyd â lleoliadau na fu iddynt gymryd rhan oherwydd yr amserlen gyfyngedig a'r her wrth ddod o hyd i fanylion cyswllt.

2. Cyflwyniad

Cefndir

- 2.1 Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022, collodd plant a phobl ifanc allan ar fynediad i weithgareddau chwarae, chwaraeon, diwylliant ac addysg hanfodol oherwydd pandemig y coronafeirws. Fe wnaethant oresgyn sawl her, o ynysu oddi wrth gyfoedion i addasu i ddysgu o adref.
- 2.2 Dangosodd arolwg cenedlaethol gan Gomisiynydd Plant Cymru yn Ionawr 2021 ([Coronafeirws a Fi](#)) fod 14 y cant o blant 7-11 oed a 40 y cant o bobl ifanc 17 oed, a atebodd yr arolwg, yn teimlo'n unig 'y rhan fwyaf o'r amser' (Comisiynydd Plant Cymru, 2021). Adroddodd yr ymatebwyr am golli eu ffrindiau a'u teulu, a rhwystredigaeth am golli allan ar brofiadau. Mae angen rhywfaint o ofal gyda'r canfyddiadau hyn gan nad oedd yn bosib asesu pa mor gynrychioliadol oedd y sampl gan na chasglwyd nodweddion personol. Canfu arolwg nad yw'n gynrychioliadol gan YoungMinds¹ (YoungMinds, 2021) i 67 y cant o bobl ifanc 13–25 gredu y bydd y pandemig yn cael effaith negyddol hirdymor ar eu hiechyd meddwl. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y rhai oedd wedi cael profedigaeth neu a gafodd brofiadau trawmatig yn ystod y pandemig, a'r rhai oedd yn pryderu a fyddai modd ailgydio mewn cyfeillgarwch ag eraill. Dywedodd ymatebwyr i'r ddau arolwg iddynt deimlo'n bryderus am golli addysg a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- 2.3 Mae llai o fynediad i fannau a chyfleusterau diogel, gan gynnwys ysgolion, wedi effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc, lles meddyliol a dysgu ([Effaith y coronafeirws ar blant a phobl ifanc](#)). Er y bu effaith ar yr holl blant a phobl ifanc, mae'r pandemig a'r cyfyngiadau wedi cael effeithiau penodol ar grwpiau oedd eisoes dan anfantais, sef plant sy'n derbyn gofal, y rhai ar ymyl gofal, pobl anabl, a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae wedi cael effaith andwyol ar bobl o gymunedau a chefnidiroedd tlotach a phlant a phobl ifanc o deuluoedd a nodwyd yn flaenorol fel rhai oedd angen cymorth ychwanegol, megis

¹ [Coronafeirws: Effaith ar bobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl](#)

plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig² (Cymdeithas y Plant, 2020).

- 2.4 Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru becyn ariannu Gaeaf Llawn Lles o £36.6m i helpu teuluoedd, plant a phobl ifanc i ymadfer yn sgil pandemig y coronafeirws. Fel rhan o hyn, darparwyd hyd at £2m ar gyfer treialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol er mwyn cyflwyno gweithgareddau a phrofiadau i gefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu, datblygu sgiliau, ac ar gyfer lles corfforol a meddyliol ar draws lleoliadau gwirfoddolwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.
- 2.5 Datblygwyd y Treial yn unol ag argymhelliad y Sefydliad Polisi Addysg (EPI) y dylai lleoliadau fod "ar agor cyn ac ar ôl oriau ysgol arferol i ddysgwyr gymryd rhan mewn ystod o raglenni, gan gynnwys clybiau chwaraeon, gweithgareddau cymdeithasol, gemau, cefnogaeth fugeiliol a rhaglenni academaidd" i gefnogi datblygiad sgiliau personol a chymdeithasol sy'n "cael effaith ar gyrhaeddiad"³ (Sefydliad Polisi Addysg, 2021). Roedd gwaith yr EPI yn adlewyrchu tystiolaeth gan y Sefydliad Gwaddol Addysg, yn ogystal â thystiolaeth ryngwladol (e.e. o'r Unol Daleithiau a Seland Newydd), sy'n dangos cydberthynas rhwng diwrnodau ysgol estynedig a gwelliannau mewn cyrhaeddiad yn enwedig i ddysgwyr difreintiedig (Sefydliad Gwaddol Addysg, 2021). Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gymhwyso argymhelliad yr EPI y dylai "arweinwyr ysgolion benderfynu pa weithgareddau sydd fwyaf priodol" i'r Treial o Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol, gan alluogi lleoliadau i gynllunio a chyflwyno cymysgedd o weithgareddau diwylliannol a chorfforol, yn ogystal â chefnogaeth academaidd.

Nodau ac amcanion

- 2.6 Prif nod y Treial oedd gwneud yr ysgol yn lle mwy cadarnhaol drwy wella lles dysgwyr, cefnogi tegwch o ran cyrhaeddiad, gwella sgiliau cymdeithasol a phersonol, ac ailadeiladu hyder ym mhob dysgwr, yn enwedig y rhai dan anfantais

² [Effaith y coronafeirws ar blant a phobl ifanc](#)

³ [Education recovery and resilience and recovery in England: Phase one report](#)

fwyaf oherwydd effeithiau'r pandemig. Roedd hefyd â'r nod o greu'r amgylchedd ar gyfer dysgu ac ail-fagu hyder dysgwyr.

- 2.7 Nod y Treial hefyd oedd profi i ba raddau y byddai ychwanegu awr at y diwrnod ysgol yn helpu dysgwyr i ddal i fyny â'r cyfleoedd cymdeithasol, academiaidd a lles yr oeddent wedi'u colli oherwydd pandemig y coronafeirws. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio ymagwedd gyfannol drwy greu profiadau sy'n canolbwyntio ar gyfoethogi i ddysgwyr (yn enwedig dysgwyr difreintiedig o gefndiroedd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd), yn hytrach na mabwysiadu ymagwedd gwbl academiaidd, gyda'r nod strategol o :
- Wella lles a hyder dysgwyr;
 - Helpu dysgwyr i ailgydio mewn dysgu o fewn amgylchedd yr ysgol yn sgil pandemig y coronafeirws;
 - Gwella perthynas dysgwyr â'r ysgol gyda'r nod o wella presenoldeb, ymddygiad, cynnydd academiaidd ac, yn y pen draw, cyrhaeddiad; a
 - Mynd i'r afael â dysgu a gollwyd drwy integreiddio sgiliau craidd, megis llefaredd, llythrennedd a rhifedd, i weithgareddau'r Treial.
- 2.8 Nod y Treial hefyd oedd bod o fudd i rieni/gofalwyr a theuluoedd, yng nghyd-destun yr ymrwymiad polisi ehangach o gydnabod patrymau gwaith, bywyd a theuluol modern. Roedd hefyd yn cynnig cyfle i leoliadau adeiladu ar ddarpariaeth debyg oedd eisoes ar gael i ddysgwyr.

Dyluniad y rhaglen

- 2.9 Roedd y treial yn cynnig gwarant o bum awr yr wythnos i ddysgwyr sy'n cymryd rhan (am 10 wythnos) o weithgareddau cyfoethogi ar ffurf chwaraeon, diwylliant, creadigrwydd, adloniant a hamdden ychwanegol cyn ac/neu ar ôl oriau ysgol arferol. Roedd angen o leiaf 20 y cant o'r amser (1 awr yr wythnos) i gyd-fynd â chefnogaeth academiaidd drwy deilwra chwaraeon neu weithgareddau cyfoethogi i gynnwys rhai sgiliau academiaidd craidd.
- 2.10 Roedd y cyllid yn seiliedig ar gyllideb a fformiwla a olygai y byddai'r Treial ar gael i rhwng 10 ac 20 lleoliad, oedd yn cyfateb i £8 yr awr, i bob dysgwr. Cafodd ei ddsbarthu i leoliadau sy'n cymryd rhan trwy awdurdodau lleol (ALI) fel rhan o'r

Grant Addysg Awdurdodau Lleol. At ei gilydd cefnogwyd y Treial gan £778,080.70 o gyllid.

- 2.11 Roedd y Treial yn cynnig hyblygrwydd i leoliadau mewn perthynas â dylunio a darparu gweithgareddau. Roedd yn caniatáu i leoliadau addasu'r cyllid i anghenion unigol eu lleoliad. Roedd gan leoliadau'r hyblygrwydd i ddewis pryd i gynnal y gweithgareddau Treial, er enghraifft cyn neu ar ôl yr ysgol neu yn ystod amser cinio.
- 2.12 Gallai pob lleoliad ddewis pa weithgareddau i'w cynnig fel rhan o'r Treial. Roedd enghreifftiau o weithgareddau a gyflwynir yn cynnwys gweithgareddau corfforol, sesiynau i wella lles, a phrofiadau newydd na fyddai dysgwyr fel arfer wedi gallu eu fforddio, megis jiwdo, trin gwallt, celfyddydau digidol, gwyddbwyll, adrodd storïau, a gweithgareddau antur awyr agored.
- 2.13 Y lleoliadau unigol fyddai'n penderfynu pa ddysgwyr a grwpiau blwyddyn i'w gwahodd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Treial.

Sefydlu'r rhaglen

- 2.14 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru amlinellu cynlluniau ar gyfer y Treial o Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol i'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg ac undebau addysg ym mis Hydref 2021. Yma, esboniwyd diben y Treial yng nghyd-destun gwaith ehangach ar ddiwygio'r diwrnod a'r flwyddyn ysgol – sy'n rhan o'r Cytundeb Cydweithredu Llafur-Plaid Cymru yn y Senedd. Rhannwyd arweiniad ag undebau addysg i'w adolygu, gyda rhai yn manteisio ar y cyfle i awgrymu newidiadau.
- 2.15 Ar ôl hynny, hyrwyddodd rhai o'r Cyfarwyddwyr y rhaglen i leoliadau yn eu hardal drwy wahanol dulliau (e.e. cylchlythyrau, e-byst, dulliau wedi'u targedu). Yna cyflwynodd lleoliadau â diddordeb Ddatganiad o Ddiddordeb (MoDd) i Lywodraeth Cymru yn manylu ar eu cynllun ar gyfer cyflwyno'r Treial. Roedd Cyfarwyddwyr Addysg (DoE) yn gweithredu fel cyfryngwyr rhwng Llywodraeth Cymru a lleoliadau yn ystod y broses MoDd gychwynnol.

Cydlynu'r rhaglen

- 2.16 Ym mis Tachwedd 2021, cyflogodd Llywodraeth Cymru Gyngorydd Dylunio a Chyflwyno Sesiynau Cyfoethogi Ysgolion (yma o hyn ymlaen "Cynghorydd y


Treial”). Roedd y rôl yn cynnwys cynghori ar ddyunio a chyflwyno'r Treial, yn ogystal â darparu arweiniad a chefnogaeth i'r lleoliadau dan sylw.

- 2.17 Dyluniwyd y Treial i raddau helaeth cyn i Gynghorydd y Treial ymgymryd â'r rôl, fodd bynnag, fe wnaethant annog Llywodraeth Cymru i ymestyn ehangder y gweithgareddau y gellir eu cynnig, i gynnwys 'adloniant', 'hamdden' a 'hwyl'. Yna, adlewyrchwyd y cwmpas ehangach hwn yn y derminoleg yn yr arweiniad a ddarparwyd i leoliadau. Fe wnaethant hefyd wella'r arweiniad ar gyfer lleoliadau, gan nodi mai ffocws y Treial oedd datblygu sgiliau a chymdeithasu.
- 2.18 At hynny, ymgysylltodd Cynghorydd y Treial ar draws amrywiaeth o Gyfarwyddiaethau Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ymwreiddio'r hyn a ddysgwyd o ddyunio a darparu yn y gwaith ehangach o lunio polisïau.

Y lleoliadau a gymerodd ran

- 2.19 Ar ôl yr MoDd cychwynnol ym mis Hydref 2021, cefnogodd Llywodraeth Cymru 14 lleoliad ar draws pump ALI: Bro Morgannwg, Castell-nedd Port-Talbot, Blaenau Gwent, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf) i sefydlu a chyflwyno Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol. Dangosir dosbarthiad y mathau o leoliadau isod:

Ffigur 1: Y lleoliadau a gymerodd ran yn y Treial



- 2.20 Roedd yr holl leoliadau a gymerodd ran yn lleoliadau cyfrwng Saesneg mewn ardaloedd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd yn ne a dwyrain Cymru. Mewn rhai achosion, cydweithiodd lleoliadau fu'n gweithredu'r Treial, er enghraifft drwy weithio gyda'i gilydd ar y cais, neu rannu staff a gofodau ar gyfer y ddarpariaeth. Cyflwynodd un ysgol uwchradd y Treial mewn partneriaeth â'r

sefydliad addysg bellach lleol (AB) (nad oedd yn darparu gweithgareddau'n annibynnol); ffurfiodd un ysgol uwchradd a'i phedair ysgol gynradd bwydo glwstwr, gan gydweithio drwy gydol y ddarpariaeth; arweinir dwy o'r ysgolion cynradd gan yr un pennaeth.

- 2.21 Ymrwymodd cyfanswm o 1,862 o ddysgwyr i weithgareddau'r Treial ar draws yr holl leoliadau. O'r rhain roedd 534 mewn ysgolion cynradd, roedd 280 mewn 'ysgolion pob oed' (3-16 oedd) a 1,048 mewn ysgolion uwchradd.
- 2.22 Cyflwynodd y lleoliadau a gymerodd ran bum awr ychwanegol yr wythnos o sesiynau cyfoethogi, yn unol ag argymhelliad EPI⁴, dros gyfnod o 10 wythnos rhwng Ionawr a Mai 2022. Gwarantwyd y nifer hwn o oriau mewn sesiynau cyfoethogi i gyfranogwyr.
- 2.23 Y bwriad yn y lle cyntaf oedd dechrau ar y treialon cyn Nadolig 2021, ond oherwydd aflonyddwch gyda'r coronafeirws, fe'i lanswyd ym mis Ionawr 2022. Roedd cymryd rhan yn y Treial yn wirfoddol ar gyfer lleoliadau ac i staff a dysgwyr unigol o fewn lleoliadau fu'n cymryd rhan.
- 2.24 Yn unol â'r paramedrau a osodwyd yn y canllawiau, gadawyd dylunio, amseru a thargedu darpariaeth i ddisgresiwn pob lleoliad, gyda'r rhan fwyaf o leoliadau yn targedu blynyddoedd pontio: roedd pob ysgol gynradd yn cynnig Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol i Blwyddyn 5 a 6, heblaw am un ysgol fu'n targedu Blwyddyn 2 a 3. Targedodd yr ysgolion uwchradd un grŵp blwyddyn neu fwy ymhlith Blynyddoedd 7 8 a 9.
- 2.25 Cyflwynwyd darpariaeth gan ddarparwyr trydydd parti, athrawon / cynorthwyyr addysgu (TA) ac mewn rhai achosion technegwyr, yn seiliedig ar argaeledd, cyfleoedd a sgiliau lleol.

Amcanion y gwerthusiad

- 2.26 Nod y gwerthusiad hwn oedd asesu sut y gweithredwyd y Treial Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol, ac archwilio deilliannau hunan-adroddedig y plant/pobl

⁴ Roedd [adroddiad yr EPI 'Education Recovery & Resilience in England' \(2021\)](#), wedi argymhell ymagwedd lle mae lleoliadau "ar agor cyn ac ar ôl oriau ysgol arferol i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o raglenni, gan gynnwys clybiau chwaraeon, gweithgareddau cymdeithasol, gemau, cefnogaeth fugeiliol a rhaglenni academaidd" i gefnogi datblygiad sgiliau personol/cymdeithasol er budd cyrhaeddiad ac i'w wella.

ifanc, teuluoedd a lleoliadau fu'n cymryd rhan. Nod y gwerthusiad hefyd oedd cywain dysgu er mwyn cyfeirio polisi ac arfer yn y dyfodol. Yn benodol, yr amcanion oedd:

- Adolygu sut y cynlluniwyd a gweithredwyd darpariaeth ar draws lleoliadau, gan gynnwys yr ystod o weithgareddau a gynigiwyd;
- Rhoi dealltwriaeth o sut yr enynnwyd diddordeb dysgwyr a sut y cawsant eu cefnogi;
- Ymchwilio i effeithiau cymryd rhan o safbwynt dysgwyr a'u teuluoedd, gan gynnwys lles meddyliol a chorfforol, hyder a mwynhad;
- Dadansoddi canfyddiadau ac effaith y Treial ar weithlu'r lleoliadau a'r amgylchedd.

2.27 Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â phob un o'r cwestiynau hyn yn y penodau sy'n dilyn. Mae Pennod 3 yn amlinellu'r fethodoleg werthuso. Mae penodau dilynol yn amlinellu canfyddiadau allweddol, gan ganolbwyntio ar sut y cynlluniodd gwahanol leoliadau'r Treial; sut y cyflwynwyd y Treial; profiadau plant a phobl ifanc fu'n cymryd rhan; a deilliannau cyffredinol y Treial. Ar ddiwedd yr adroddiad, rydym yn cyflwyno'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil ac yn dod â chasgliadau'r gwerthusiad ynghyd.

3. Methodoleg

3.1 Cynhaliwyd ymchwil cynraddac eilaidd fel rhan o'r gwerthusiad dulliau cymysg hwn o'r Treial o Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol, rhwng misoedd Chwefror a Gorffennaf 2022. Mabwysiadwyd dulliau cymysg o weithredu i gyflawni ehangder (drwy arolygon) a dyfnder (drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws) o ran casglu data. Casglwyd data ansoddol gan oedolion drwy gyfweiliadau un-i-un neu mewn parau, ac yn achos plant a phobl ifanc fe'i casglwyd drwy drafodaethau grŵp ffocws. Fel arfer, mae plant a phobl ifanc yn fwy parod i rannu gwybodaeth wrth gael eu cyfweld (am bwnc nad yw'n sensitif) gyda grŵp o gyfoedion nag yn unigol.

3.2 Dangosir y dulliau, y grwpiau cyfranogwyr a'r sampl a gyflawnwyd yn y Tabl isod.

Tabl 1. Dulliau a sampl a gyflawnwyd

Grŵp cyfranogwyr	Sampl a gyflawnwyd	Dull	Diben
Llywodraeth Cymru a swyddogion ALI	7	Cyfweiliad ansoddol	Darparu cyd-destun rhaglen, sut y bwriadwyd ei gyflwyno
Arweinwyr ALI pan nad oedd lleoliadau wedi cymryd rhan yn y Treial	6 (o 17)	Cyfweiliadau ansoddol	Deall y rhesymau pam nad oedd unrhyw lleoliadau wedi cymryd rhan yn y Treial mewn rhai ALI
Arweinwyr lleoliadau'r Treial ar draws pob lleoliad a gymerodd ran	16	Cyfweiliadau ansoddol	Ymchwilio i sut y cynlluniwyd a gweithredwyd y rhaglen o fewn pob lleoliad
Staff y lleoliad/darparwyr allanol yn darparu gweithgareddau'r Treial	13	Cyfweiliadau ansoddol	Casglu barn a phrofiadau staff a darparwyr fu'n cyflwyno'r Treial
Plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y treial	1085	Arolwg gwaelodlin (ar-lein neu ar bapur)	Casglu barn a phrofiadau plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial ar ddechrau'r Treial
Plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y treial	328	Arolwg ar-lein ar ôl y treial	Casglu barn a phrofiadau plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial ar ddiwedd y Treial

Grŵp cyfranogwyr	Sampl a gyflawnwyd	Dull	Diben
Plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y treial	11 grŵp ffocws, 5-10 cyfranogwr ym mhob grŵp	Grwpiau ffocws	Casglu barn a phrofiadau dysgwyr a gymerodd ran yn y treial
Rhieni plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial	157	Arolwg ar-lein	Casglu barn a phrofiadau rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial
Rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial	5	Cyfweliadau ansoddol	Casglu barn a phrofiadau rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial
Rhieni plant/pobl ifanc na chymerodd ran yn y treial	1	Cyfweliadau ansoddol	Deall rhesymau dysgwyr a/neu rieni/gofalwyr dros beidio ag eisiau cymryd rhan yn y Treial

Tabl 2. Darperir dadansoddiad o ymatebwyr i'r arolwg rhieni yn ôl lleoliad isod:

Lleoliad	Ymatebion
Cymuned Ddysgu Abertyleri	32
Ysgol Gynradd Tregatwg	0
Ysgol Gyfun Cefn Saeson	72
Ysgol Gynradd Colcot	0
Ysgol Gynradd Darrenlas	9
Ysgol Uwchradd Eastern / Coleg Caerdydd a'r Fro	0
Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr	12
Ysgol Gynradd Glenboi	3
Ysgol Gynradd Holton	0
Ysgol Gynradd Melin	6
Ysgol Gynradd Oakfield	10
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	0
Ysgol Gynradd Windsor Clive	13
Cyfanswm	157

Tabl 3. Darperir dadansoddiad o ymatebwyr yr arolwg cyn ac ar ôl y Treial yn ôl lleoliad isod:

Lleoliad	Cyn y Treial⁵	Ar ôl y Treial
Cymuned Ddysgu Abertyleri	52	69
Ysgol Gynradd Tregatwg	57	38
Ysgol Gyfun Cefn Saeson	259	2
Ysgol Gynradd Colcot	71	78
Ysgol Gynradd Darrenlas	25	30
Ysgol Uwchradd Eastern / Coleg Caerdydd a'r Fro	163	0
Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr	87	47
Ysgol Gynradd Glenboi	15	25
Ysgol Gynradd Holton	98	1
Ysgol Gynradd Melin	27	0
Ysgol Gynradd Oakfield	39	0
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	132	38
Ysgol Gynradd Windsor Clive	60	0
Cyfanswm	1085	328

Recriwtio cyfranogwyr ac ystyriaethau moesegol

- 3.3 Ceir copi o ddeunyddiau cywain data yn Atodiad 1. Cyfieithwyd yr holl ganllawiau cyfweld yn broffesiynol i'r Gymraeg unwaith y cytunwyd ar fersiynau Saesneg terfynol gyda Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd cyfweiliadau ansoddol a'r arolygon ar ôl y Treial i ddysgwyr yn Gymraeg a Saesneg: cwblhawyd un cyfweiliad â swyddog yn Llywodraeth Cymru ac un cyfweiliad ag aelod staff/darparwr gweithgareddau mewn lleoliad yn Gymraeg.
- 3.4 Darparodd Llywodraeth Cymru gyfeiriadau e-bost swyddogion addysg ALI, y lleoliadau fu'n cymryd rhan ac arweinwyr yr ALI hynny na fu i'w lleoliadau gymryd rhan i'r tîm ymchwil. Yn dilyn e-bost cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, fe wnaeth

⁵Casglwyd y data gan Lywodraeth Cymru

y tîm ymchwil e-bostio arweinwyr lleoliadau'r Treial, gan eu gwahodd nhw i gyfweiliad. Gofynnwyd hefyd i arweinwyr lleoliadau gefnogi'r gwerthusiad drwy:

- Gylchredeg ffurflen ddiogel i staff lleoliadau a/neu ddarparwyr allanol fu'n ymwneud â chyflwyno Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn barod i gael eu cyfweld roi eu manylion, a defnyddiwyd y rhain gan y tîm ymchwil i gysylltu â nhw. Recriwtiwyd rhai cyfweleion hefyd drwy arweinwyr lleoliadau'r Treial (h.y. y person sy'n arwain y Treial ym mhob lleoliad).
- Trefnu grwpiau ffocws gyda phlant/pobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn y Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol.
- Dosbarthu arolwg ar-lein ar ôl y Treial i'r holl blant/pobl ifanc a gymerodd ran.
- Dosbarthu arolwg ar-lein i rieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn y Treial. Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i rieni/gofalwyr roi eu manylion cyswllt os oedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfweiliad am y Treial. Recriwtiwyd rhai o'r rhieni/gofalwyr y cyfwelwyd â hwy yn uniongyrchol drwy arweinwyr lleoliadau.
- E-bostio rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a ddewisodd beidio â chymryd rhan yn y Treial, gan ofyn iddynt ddarparu eu manylion mewn ffurflen ddiogel os oeddent yn fodlon cael eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad.

3.5 Anfonwyd hysbysiadau preifatrwydd at bawb y cyfwelwyd â hwy cyn y cyfweiliad, a gwiriodd yr ymchwilydd a oedden nhw'n eu deall cyn dechrau'r cyfweiliad. Gwnaed cyfweiliadau gyda phlant a phobl ifanc gydag oedolyn oedd yn bresennol yn yr ystafell (fel y person oedd yn darparu'r gweithgaredd yr oeddent yn cymryd rhan ynddo). Cyn dechrau cyfweiliad, gwiriodd yr ymchwilydd fod cyfweleion yn deall beth oedd natur y cyfranogiad a'u bod eisiau cymryd rhan.

Cywain, rheoli a dadansoddi data

3.6 Hwyluswyd yr holl drafodaethau ansoddol gyda chymorth canllawiau pwnc lled-strwythuredig ac fe'u cynhaliwyd o bell dros MS Teams. Cafodd pob cyfweiliad ei recordio a'i drawsgrifio'n awtomatig. Defnyddiwyd y trawsgrifiadau i ysgrifennu data'r cyfweiliad o dan y penawdau a'r is-benawdau thematig cytunedig, yn unol â chanllawiau cyfweld a ddatblygwyd i ymdrin â'r cwestiynau ymchwil cytunedig.

Cafodd yr holl ddata ansoddol ei gofnodi a'i brosesu yn Excel. Roedd hyn yn cynnwys codio cychwynnol a thagio'r data gan ddefnyddio ffrâm godio gytunedig. Ar ôl i ddata ansoddol gael ei godio, cynhaliwyd cam dadansoddi eilaidd fu'n galluogi dadansoddi thematig yn erbyn cwestiynau ymchwil y gwerthusiad.

- 3.7 Gweinyddwyd yr arolwg gwaelodlin i blant a phobl ifanc gan bob lleoliad, naill ai ar-lein neu ar bapur, a darparwyd data i'r tîm ymchwil fel data crai yn Excel, fel tablau data yn Excel, neu fel copïau wedi'u sganio neu ffisegol o arolygon papur. I Cofnodwyd yr holl ddata yn Excel a gwnaed dadansoddiad o'r holl ddata arolwg (arolygon plant / pobl ifanc, arolygon rhieni / gofalwr gwaelodlin ac ar ôl y Treial) yn Excel. Cafodd y data ei lanhau cyn rhedeg ystadegau disgrifiadol (amlderau) i archwilio allbynnau a deilliannau'r rhaglen.
- 3.8 Yna, cafodd y deilliannau ar draws gwahanol randdeiliaid a dulliau cywain data eu triongli. Roedd hyn yn caniatáu archwilio'r canfyddiadau ar draws grwpiau cyfranogwyr a dadansoddi i ba raddau yr oedd cytundeb ar draws pob thema.

Cyfyngiadau o ran data

- 3.9 Casglwyd y rhan helaeth o'r data rhwng Mai a Gorffennaf 2022, ar ôl diwedd y Treial o'r Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol. O ganlyniad i'r oedi bu'n anoddach i'r tîm ymchwil gyrraedd staff lleoliadau/darparwyr yn ogystal â rhieni/gofalwyr a gymerodd ran ac na chymerodd ran, gan gynyddu'r siawns o gamgymeriadau wrth gofio ymhlith cyfranogwyr yn yr ymchwil.
- 3.10 Roedd y gyfradd ymateb i'r arolygon plant/pobl ifanc gwaelodlin ac ar ôl y treial, yn ogystal â'r arolwg rhieni/gofalwyr sy'n cymryd rhan yn ddigon i ganiatáu i'r tîm gwerthuso fynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil. Er hynny, nid yw proffil llawn y plant/pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn hysbys gan na fu i'r arolygon gywain data demograffig.
- 3.11 Dyluniwyd a gweinyddwyd yr arolwg gwaelodlin plant/pobl ifanc cyn i Ecorys gael ei benodi fel gwerthusydd y rhaglen. Felly, dim ond nifer bach o gwestiynau oedd yn caniatáu cymharu cyn ac ar ôl rhwng arolygon gwaelodlin ac ar ôl y Treial. Yn yr adroddiad hwn defnyddir data ar ôl y Treial yn bennaf.

- 3.12 Cynhaliwyd llai o gyfweiliadau â staff lleoliadau/darparwyr a rhieni/gofalwyr eu na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd oedi wrth gysylltu â'r lleoliadau. At hynny, mae'r cais gan Lywodraeth Cymru i gyfranogwyr ymchwil roi eu manylion cyswllt mewn ffurflen ddiogel wedi helpu i sicrhau sampl mwy diduedd na phe bai'r cyfranogwyr wedi'u dewis gan arweinwyr lleoliadau ond wedi arwain at sampl lai a gyflawnwyd. Dewiswyd rhai staff lleoliadau/darparwyr a rhieni/gofalwyr gan arweinwyr lleoliadau i helpu i gynyddu nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd.
- 3.13 Roedd y sampl o rieni a gafodd eu cyfweld yn fach (5) ac mae'n debygol y bydd gogwydd hunan-ddethol gan i'r cyfranogwyr gytuno i gael eu cyfweld yn sgil yr arolwg i rieni, a darparu eu manylion cyswllt.
- 3.14 Cysylltwyd â phob ALI nad oedd yn cymryd rhan am gyfweiliad, ac roedd y 6 chyfweiliad a gwblhawyd gyda'r rhai a gytunodd i gymryd rhan, felly mae'n debygol y bydd gogwydd hunan-ddethol.
- 3.15 Ni chyfwelwyd â lleoliadau na chymerodd ran oherwydd yr amserlen gyfyngedig ar gyfer y gwerthusiad a her wrth ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer cyfweleion posib.
- 3.16 Cynhaliwyd yr holl ymchwil cychwynnol o bell drwy alwadau fideo MS Teams ac arolygon ar-lein, i gefnogi gyda chyflwyno gwerthusiad ar gyflymder yn ystod cyfnod prysur i'r lleoliadau (tymor yr haf) a chan eu bod yn dal i ymdopi ag arweiniad coronafeirws.
- 3.17 Oherwydd amserlen y rhaglen, nid oedd yn bosibl casglu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb y dysgwyr fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Treial. Tra bod pob lleoliad dysgu a gyfrannodd mewn ardal o dan anfantais cymdeithasol ac economaidd, nid oedd yn bosibl adrodd ar wahaniaethau mewn cyfraddau cymryd rhan neu fuddiannau canfyddedig rhwng dysgwyr llai a mwy breintiedig.
- 3.18 Mae'r adroddiad yn cynnwys canfyddiadau hunan-adroddedig ynghylch deilliannau'r rhaglenni (yn hytrach na gwerthusiad effaith gwrthffeithiol). Gallai gwerthusiadau o unrhyw weithgareddau tebyg yn y dyfodol gynnwys gwerthusiad effaith i asesu cynnydd tuag at y deilliannau datganedig y rhaglen. Gall unrhyw

raglenni o natur debyg yn y dyfodol hefyd elwa o gynnwys model rhesymeg i ddarparu dealltwriaeth a rennir o'r gweithgareddau a'r deilliannau a fwriedir yn ogystal â fframwaith ar gyfer gwerthuso.

4. Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn cynnwys canfyddiadau ymchwil ar y niferoedd a fanteisiodd ar y rhaglen, sut y dyluniwyd a chyflwynwyd y Treial gan wahanol lleoliadau, profiad y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran, a'r deilliannau.

Y niferoedd a fanteisiodd ar y rhaglen

- 4.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r niferoedd a fanteisiodd ar y Treial yn y lleoliadau, ac yn ystyried pa resymau oedd gan rai awdurdodau lleol a'u lleoliadau am ddewis peidio â chymryd rhan yn y Treial.

Nifer y lleoliadau a gymerodd ran

- 4.2 Fel y crybwyllwyd yn y Cyflwyniad, cymerodd cyfanswm o 14 lleoliad ran yn y Treial. Roedd hyn yn ystod ganol y nifer y gallai'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y Treial ei gefnogi. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gobeithio y byddai modd i un neu ddau leoliad arall gymryd rhan ond roeddent yn cydnabod bod lleoliadau o dan bwysau mawr o ganlyniad i'r amrywiolyn coronafeirws Omicron ddod i'r amlwg, a bod y cyfnod paratoi rhwng cyhoeddi a chyflwyno'r Treial yn dynn iawn. Disgrifiwyd y lleoliadau fu'n cymryd rhan fel rhai 'blaengar' ac 'uchel eu cymhelliad' gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

'Roedd yr amgylchiadau'n andros o anodd beth bynnag; roedd ysgolion dan bwysau aruthrol. I weld [14] o ysgolion yn mynegi diddordeb o dan yr amgylchiadau hynny, mae'n eithaf positif.' Swyddog Llywodraeth Cymru

- 4.3 Yn ôl rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru, byddai cam dylunio'r Treial gan Lywodraeth Cymru wedi elwa o gydweithio ac ymgynghori gyda lleoliadau. Efallai y gallai hyn fod wedi arwain at fwy o fanteisio ar y Treial, gan gynnwys gan leoliadau addysg arbennig a lleoliadau cyfrwng Cymraeg.
- 4.4 Nododd arweinwyr lleoliadau a swyddogion addysg ALI bod y Treial wedi dwyn yr enw 'estyniad i'r diwrnod ysgol' yn y lle cyntaf a bod hyn wedi achosi rhywfaint o adlach ar ffurf sylwadau yn y cyfryngau gan undebau athrawon mewn sylw ar y cyfryngau a oedd fel arall yn gadarnhaol. Roedden nhw'n teimlo y dylai'r Treial fod wedi cael ei alw'n 'Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol' o'r cychwyn cyntaf, gan ei fod yn ddisgrifiad mwy teg o'r rhaglen.

'Teitl hollol anghywir oedd ymestyn y diwrnod ysgol [...]. Nid dyna beth yw e.'
Arweinydd lleoliad yn y treial

- 4.5 Derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru adborth na fu i rai lleoliadau ymgeisio i gymryd rhan yn y treialon oherwydd y canfyddiad o gyfranogiad athrawon "gorfodol" a sylwadau negyddol cychwynnol yn y cyfryngau.

ALI na fu iddynt gymryd rhan

- 4.6 Ni rannodd rhai arweinwyr LA wybodaeth am y Treial gyda lleoliadau yn eu Hawdurdod Lleol. Y prif resymau a roddwyd dros hyn oedd nad oeddent am orlethu lleoliadau drwy ychwanegu pwysau pellach ar staff lleoliadau, yn enwedig o ystyried yr amserlen dynn o gyhoeddi'r rhaglen i ddechrau'r ddarpariaeth. Adroddwyd i rai o'r lleoliadau a ddewisodd beidio â chymryd rhan ei chael hi'n anodd darparu dosbarthiadau'r cwricwlwm, gan i achosion coronafeirws achosi lefelau uchel o absenoldebau staff heb unrhyw ddarpariaeth gyflenwi. Diffyg capasiti staff ac amser paratoi byr oedd prif resymau lleoliadau wrth wrthod cymryd rhan hefyd.

'[Byddai cyflwyno'r Treial wedi] tipio pobl dros y dibyn. Roedd pobl yn gweithio bob awr o'r dydd a'r nos. Penaethiaid yn gorfod ymgymryd ag addysgu a gwneud eu dyletswyddau arweinyddiaeth gyda'r nos.' Swyddog addysg mewn ALI

- 4.7 Nododd Cyfarwyddwyr Addysg y cyfwelwyd â hwy mewn ALI na fu iddynt gymryd rhan fod rhai lleoliadau wedi yr wybodaeth am y Treial yn ddryslyd, ac ni ellid ateb y cwestiynau lluosog yr oedd angen i leoliadau eu hateb o fewn yr amserlen fer. At hynny, dywedon nhw fod gan rai lleoliadau gwledig bryderon ynghylch darparu cludiant i ddysgwyr gyrraedd adref petaent dibynnu ar fysiau arferol.
- 4.8 Awgrymodd Cyfarwyddwyr Addysg mewn ALI na fu iddynt gymryd rhan y ffyrdd canlynol o annog lleoliadau i gymryd rhan mewn darpariaeth yn y dyfodol:
- Mwy o eglurder o ran y cynnig;
 - Swyddogion dynodedig i ddarparu cymorth gyda dylunio a gweithredu gweithgareddau;
 - Mwy o amser ar y dechrau er mwyn i leoliadau baratoi a chynllunio'n well o ran staffio a rheoli darpariaeth arall;

- Mwy o hyblygrwydd i leoliadau gwledig gynnog cludiant, er enghraifft drwy gyllid penodedig neu drwy weithio gyda lleoliadau i nodi ffyrdd i ddysgwyr ddychwelyd adref ar ôl sesiynau'r Treial.

5. Cynllunio ar lefel lleoliadau

- 5.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio sut y cynlluniodd gwahanol leoliadau y Treial, gan gynnwys eu rhesymau dros gymryd rhan, sut y'i cynlluniwyd ar lefel lleoliadau, gan gynnwys cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr, sut roedd lleoliadau'n targedu grwpiau penodol o ddysgwyr a recriwtio darparwyr. Mae hefyd yn nodi'r ffactorau galluogi a'r rhwystrau yn y cam cynllunio, a'r gwersi a ddysgwyd.

Sail resymegol dros gymryd rhan

- 5.2 Amlygodd lleoliadau'r Treial iddynt deimlo bod hwn yn gyfle i roi **profiadau a chyfleoedd** i ddysgwyr na fyddent wedi cael mynediad atynt fel arall oherwydd y cyd-destun lleol o anfantais gymdeithasol ac economaidd y lleoliadau a gymerodd ran. Roedd hyn yn ysgogiad allweddol i leoliadau benderfynu cymryd rhan yn y Treial. Fe wnaeth y rhai y cyfwelwyd â hwy gan gynnwys arweinwyr lleoliadau'r Treial, staff lleoliadau, darparwyr a rhieni bwysleisio pwysigrwydd y treial ar gyfer plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Roedd yr arian yn galluogi lleoliadau i gynnig cyfleoedd i'r plant a'r bobl ifanc hyn na fydden nhw byth yn eu cael fel arall.

'Mantais yr arian oedd bod modd i ni fod yno a rhoi cynnig ar bethau fel Pilates a yoga na fyddai modd i ni eu fforddio fel arall, ac roedden ni'n gallu arbrofi mewn gwirionedd, i weld beth oedd disgyblion yn ei fwynhau. Roeddem yn gallu cynnig dewislen o weithgareddau i'n disgyblion y tu hwnt i'n breuddwydion mwyaf gwyllt.' Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.3 Yn achos lleoliadau a soniodd am **lefelau uchel o anfantais gymdeithasol ac economaidd** fel symbylydd cryf dros gymryd rhan yn y Treial, y nod oedd cadw plant a phobl ifanc yn amgylchedd diogel yr ysgol, cynnig cyfleoedd iddynt gael profiadau newydd na fyddai ganddynt fynediad iddynt fel arall, ac mewn rhai achosion, darparu adnoddau ychwanegol iddynt, fel pryd cynnes o fwyd neu ddeunyddiau celfyddydau a chwaraeon.
- 5.4 Ysgogwyd eraill gan bwysigrwydd gweithgareddau cyfoethogi a phleserus ychwanegol i **wella canfyddiadau a phrofiadau plant/pobl ifanc o'r ysgol** ac adeiladu'n ôl eu gallu i gymdeithasu â'u cyfoedion a'u hathrawon ar ôl dwy flwyddyn ysgol o aflonyddwch.

‘Roedden ni eisiau rhywbeth fyddai'n cyfoethogi'r diwrnod ysgol, i gynnig rhywbeth iddyn nhw ar ddiwedd y dydd, fel y gallen nhw ddod i mewn i'r ysgol, meithrin perthynas â staff a meithrin perthynas â'i gilydd.’ Arweinydd lleoliad yn y treial

Yn gysylltiedig â hyn, oedd y cymhelliant i **ail-ennyn diddordeb dysgwyr yn yr ysgol ac annog presenoldeb**. Roedd heriau o ran presenoldeb ar ôl i leoliadau ail-agor yn broblem ar draws yr ymatebwyr. I rai, gwelwyd y Treial fel cyfle i dynnu dysgwyr yn ôl i'r ysgol trwy wella eu lles a chanolbwyntio ar weithgareddau llawn hwyl.

‘Roedden ni'n gwybod petaem yn rhoi lles yng nghanol [yr ysgol] a gwneud yn siŵr y gofalir am eu lles a'u bod yn barod i ddysgu, yna mewn gwirionedd byddai hynny'n cael sgil-effaith ar y diwrnod ysgol.’ Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.5 Roedd arweinwyr lleoliadau hefyd yn teimlo bod y pandemig wedi creu angen am gyfleoedd newydd i ddysgwyr gymdeithasu â'u cyfoedion, a byddai'r Treial yn darparu cyfleoedd o'r fath:

‘Roeddem yn teimlo eu bod wedi colli allan ar gymaint a bod eu rhyngweithio cymdeithasol yn broblem go iawn ac yn rhwystr i ddysgu gan nad oedden nhw wedi bod gyda'i gilydd.’ – Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.6 Soniodd ambell i leoliad fod y Treial yn gyfle da i ddechrau llenwi'r bwlch mewn darpariaeth allgyrsiol a oedd wedi tyfu o ganlyniad i atal gweithgareddau ychwanegol yn ystod y pandemig.

Dylunio'r rhaglen ar lefel y lleoliad

- 5.7 Ar lefel y lleoliad, llenwyd y MoDd mewn nifer o ffyrdd. Roedd lleoliadau naill ai'n dosbarthu'r cyfle a lluniwyd y cais gan athrawon a oedd â diddordeb mewn cyflwyno gweithgareddau ar ran y lleoliad, neu arweiniwyd y cais gan un aelod canolog o staff, megis y Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol neu arweinydd bugeiliol. Ymgeisiodd rhai lleoliadau fel rhan o glwstwr, fel y pum ysgol wnaeth ffurfio clwstwr er enghraifft. Yn gyffredinol, teimlodd cyfweleion fod y broses ymgeisio yn llyfn ac yn ddiffwdan. Er hynny, nododd rhai fod yr amserlen dynn yn heriol.

- 5.8 Ar ôl cyflwyno'r MoDd, hysbyswyd lleoliadau gan Lywodraeth Cymru eu bod wedi cael eu dewis i gymryd rhan yn y treial. Mynychodd y lleoliadau fu'n cymryd rhan gyfarfod cychwynnol gyda Chynghorydd y Treial lle buont yn trafod manylion eu cynnig, gan gynnwys nifer y ddysgwyr y disgwylir iddynt gymryd rhan, blynyddoedd ysgol a dargedir a dyddiadau dechrau a gorffen cynlluniedig.
- 5.9 Yn ystod ail gyfarfod gyda Chynghorydd y Treial, trafodwyd cynlluniau ar gyfer sut y byddai lleoliadau'n gweithredu'r Treial yn fanylach, gan gynnwys pa weithgareddau y dylid eu darparu, cyfathrebu â rhieni/gofalwyr a dysgwyr a threfnu staffio, gan gynnwys recriwtio darparwyr allanol. Roedd Cynghorydd y Treial penodedig yn cynnig cyngor ac arweiniad yn y cam hwn.
- 5.10 Cafodd y lleoliadau a gymerodd ran gyfarfodydd gyda Chynghorydd y Treial fel y bo angen, yn y cyfnod cyn ac yn ystod cyflwyno'r Treial. Roedd y Pennaeth yn bresennol ym mhob cyfarfod, a hefyd rhai aelodau staff oedd yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r Treial. Cyfarfu ysgolion clwstwr fel grŵp. Roedd cyfarfodydd yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer lleoliadau i gael cefnogaeth gan Gynghorydd y Treial i nodi darparwyr allanol.
- 5.11 Cadwyd cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth yn nwylo pwy bynnag gwblhaodd y broses ymgeisio ar gyfer y lleoliad. I rai, un aelod o staff oedd hwn, megis y Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol neu'r Dirprwy Bennaeth neu arweinydd bugeiliol. I eraill, roedd hyn yn grŵp o athrawon oedd wedi mynegi diddordeb yn y Treial. Cynlluniodd ysgolion fu'n gweithredu fel clwstwr y gweithgareddau fel grŵp.
- 5.12 Roedd arweinwyr lleoliadau'n ddiolchgar am yr opsiwn i deilwra gweithgareddau'r Treial yn seiliedig ar staff ac argaeledd gwirfoddolwyr. Roedden nhw hefyd yn gwerthfawrogi'r rhyddid i ddefnyddio eu barn broffesiynol i ddewis pa grwpiau dysgwyr (a faint) fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan. At hynny, sicraodd yr hyblygrwydd hwn yn sicrhau bod modd cynnal mesurau diogelwch coronafeirws, megis 'swigod'.
- 5.13 Roedd lleoliadau'n cyfathrebu â rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn uniongyrchol am sut y byddai'r Treial yn cael ei redeg, beth oedd ar gael a sut y gallen nhw gofrestru. Gwnaed hyn drwy e-bost, ffurflenni caniatâd ar-lein neu lythyrau copi caled a

anfonwyd adref. Roedd rhai lleoliadau yn gwahodd rhieni/gofalwyr a dysgwyr i sesiwn wybodaeth i esbonio'r Treial.

'Roedd yr ymateb yn wych. Roedd rhieni a gofalwyr i'w gweld ar ben eu digon gan fod [y gweithgareddau] i gyd yn rhad ac am ddim felly mae'n anhygoel eu bod nhw'n cael gwneud y pethau hynny, ac yn amlwg yn dysgu hefyd.' Staff lleoliad/darparwr

Cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr

5.14 Ar gyfer rhai lleoliadau, roedd caniatáu i ddysgwyr ddweud eu dweud o ran pa weithgareddau fyddai'n cael eu cynnwys yn y Treial yn allweddol, gan y teimlwyd ei bod yn bwysig ennyn diddordeb dysgwyr. Fodd bynnag, oherwydd yr amserlen fer, ni fu'n bosib ymgynghori â dysgwyr yn gyson, na chynnwys grŵp mawr neu gynrychioliadol o ddysgwyr pan gynhaliwyd ymgynghoriadau. Roedd y lleoliadau a fu'n cynnwys llais dysgwyr yng nghanam cynllunio gweithgareddau'r Treial trwy drafodaethau, arolygon, neu adborth ar 'sesiynau blasu' wedi nodi cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr fel un o'r ffactorau llwyddiant allweddol, a gafodd effaith gadarnhaol ar ymgysylltu a phresenoldeb. Awgrymodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg fwy o gyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc hefyd mewn unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol.

5.15 Mewn rhai achosion, helpodd dysgwyr i siapio'r gweithgareddau y gwnaethant gymryd ran ynddynt, er enghraifft awgrymu ryseitiau ar gyfer sesiynau coginio, neu ddewis eu llwybr ar gyfer y filltir ddyddiol. Roedd un lleoliad yn cynnal grwpiau ffocws bach gyda'r grwpiau blwyddyn a dargedwyd er mwyn mesur yr hyn y byddent wedi hoffi ei wneud, ac anfonodd un arall arolwg byr i ddysgwyr trwy MS Forms.

'Mae [ymgyngori â dysgwyr] jyst i bawb gael mynediad, a dyna'r peth pwysig, a dw i'n hoffi trio ei wneud e fel ei fod yn berthnasol i'r bobl yna, felly maen nhw'n dod â'u syniadau eu hunain ac nid fi'n unig sy'n dweud e: dyma beth rydyn ni'n ei wneud, a phryd.' Staff lleoliad/darparwr

5.16 Holodd rhai lleoliadau rieni yn y cam cynllunio, er mwyn cywain adborth ar ba weithgareddau yr hoffai dysgwyr eu gweld. Yn ystod cam gweithredu'r Treial,

cafodd rhieni/gofalwyr eu hysbysu drwy e-bost, drwy daflenni a ddsbarthwyd mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Grwpiau targed

- 5.17 Roedd pob lleoliad yn targedu set benodol o grwpiau blwyddyn. Ond roedd rhai o'r farn na fyddent eisiau canolbwyntio ar grwpiau blwyddyn penodol, gan i bob plentyn a pherson ifanc ddiodef o aflonyddwch y pandemig, ond roeddent yn ei weld yn angenrheidiol at ddibenion cynllunio. Roedd yr ysgolion cynradd a gymerodd ran yn tueddu i ffocysu'r ddarpariaeth ar flwyddyn 5 a 6, gydag un yn dewis ffocysu ar flwyddyn 2 a 3. Roedd ysgolion uwchradd a thrwy ysgolion yn targedu blwyddyn 7, 8 a 9.
- 5.18 Roedd pob ysgol gynradd ond un yn targedu blwyddyn 5 a 6 er mwyn eu cefnogi wrth bontio i'r ysgol uwchradd. Roedd arweinwyr lleoliadau'n teimlo bod plant yn y grwpiau blwyddyn hyn wedi colli allan ar flynyddoedd craidd o ddatblygiad cymdeithasol a bod yr unigrwydd yr oeddent wedi'i brofi yn ystod y pandemig wedi effeithio ar eu gallu i gymdeithasu â phlant eraill, eu dysgu, a'u lles meddyliol a chorfforol. Roedd rhai lleoliadau'n teimlo mai'r grwpiau hyn oedd wedi colli allan fwyaf ar weithgareddau allgyrsiol am eu bod yn rhy ifanc i gymryd rhan cyn y pandemig, a bod angen cymorth ychwanegol arnynt i baratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd. Dewisodd yr ysgol gynradd arall i ganolbwyntio ar flwyddyn 2 a 3 gan iddynt deimlo bod y grwpiau hyn wedi colli allan fwyaf ar ddatblygiad cymdeithasol oherwydd nad oeddent erioed wedi cael blwyddyn ysgol lawn wyneb yn wyneb, oherwydd cyfnodau clo'r coronafeirws.
- 5.19 Roedd ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed wedi dewis grwpiau blwyddyn rhwng blwyddyn 7 a 9 gan iddynt deimlo mai nhw oedd â'r problemau ymddygiadol mwyaf, yn fwyaf tebygol o fod wedi'u dadrithio yn yr ysgol neu wedi colli allan fwyaf am nad oedden nhw wedi cael blwyddyn ysgol wyneb yn wyneb llawn ers pontio i'r ysgol uwchradd. Canolbwyntiodd un ysgol uwchradd ei darpariaeth ar flwyddyn 7 i 9 ond gan agor ei gweithgareddau i bob grŵp blwyddyn. Ceisiodd arweinydd y Treial annog pob grŵp oedran i gymysgu â'i gilydd ac i ddysgwyr hŷn gefnogi rhai iau yn y gweithgareddau.

- 5.20 Gwnaeth lleoliadau gyda dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn eu grwpiau blwyddyn darged ymdrechion i ddarparu ar eu cyfer pan fu hynny'n bosib, er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y gweithgareddau ochr yn ochr â'u cyfoedion. Roedd un lleoliad yn cynnig y dewis i ddysgwyr ag ADY fynychu gweithgareddau am gyfnod byrrach pan fu angen. Er hynny, nododd rhai arweinwyr lleoliadau ei bod yn anodd darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a oedd eisoes ag ymrwymïadau allanol, fel sesiynau cymorth ychwanegol ar ôl ysgol.
- 5.21 Dywedodd cyfweleion fu'n cynnwys arweinwyr lleoliadau'r Treial, staff lleoliadau a darparwyr fod gan weithgareddau'r Treial lefelau uchel o bresenoldeb ac ymgysylltu gan ddysgwyr. Roedd rhai lleoliadau'n cynnal gweithgareddau ac yn caniatáu i ddysgwyr fynychu fel y mynnent ond gan ganolbwyntio ar gynnal gweithgareddau yr oedd plant/pobl ifanc eisoes wedi mynegi diddordeb ynddynt, ac roedd gan eraill broses gofrestru ffurfiol ar ddechrau'r Treial fu'n annog dysgwyr i ymrwymo i'r 10 wythnos lawn.

'Rydyn ni'n hoffi'r cymhelliant ohonyn nhw'n gorfod ymrwymo. Roedden ni'n meddwl ei fod yn eu dysgu nhw na allwch chi jyst troi i fyny fel y mynnwch gan fod pobl yn rhoi o'u hamser a'u hymdrech.' Arweinydd lleoliad yn y treial

Darparwyr

- 5.22 Defnyddiodd lleoliadau gymysgedd o staff (gan gynnwys athrawon, CA a staff cefnogi) a darparwyr allanol i gynnal gweithgareddau'r Treial. Roedd rhai lleoliadau'n defnyddio darparwyr allanol yn bennaf, ac yn cynnig cyfle i staff ochr yn ochr â hyn, tra bod eraill yn dibynnu'n bennaf ar eu staff eu hunain i gyflwyno gweithgareddau, gan ategu hyn gyda darpariaeth fwy arbenigol gan ddarparwyr allanol.
- 5.23 Roedd gan lawer o leoliadau gysylltiadau fu'n bodoli eisoes gyda darparwyr allanol yr oeddent yn galw arnynt i ddarparu gweithgareddau, a oedd yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd cyfyngiadau amser y Treial. Fodd bynnag, mewn rhai achosion cydweithiodd lleoliadau gyda darparwyr allanol newydd yn unig.

‘Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn gan ein bod wedi sefydlu cysylltiadau [gyda darparwyr allanol] nawr a bydd modd eu cysylltu â dysgu ehangach mewn gwahanol feysydd.’ Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.24 Recriwtiwyd darparwyr allanol hefyd drwy Force Fitness, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol a Gwasanaethau Ieuencid ar gyfer ysgolion uwchradd. At hynny, cynigiodd Cynghorydd y Treial gymorth i leoliadau o ran recriwtio darparwyr allanol yn ystod eu cyfarfodydd rheolaidd. Awgrymodd rhai lleoliadau y byddai wedi bod yn fwy effeithiol i gael rhestr o ddarparwyr allanol posib mewn cam cynllunio cynharach.
- 5.25 Nododd lleoliadau a ddefnyddiodd ddarparwyr allanol fanteision o allu cynnig ystod ehangach o weithgareddau i ddysgwyr, y tu hwnt i'r hyn y byddai modd i'w staff eu hunain ei redeg.
- 5.26 Cynigiodd lleoliadau gyfle i'w staff eu hunain gymryd rhan wrth gyflwyno'r Treial ar sail wirfoddol. Cafodd staff a ddewisodd gymryd rhan eu talu am amser cyflwyno a chynllunio, yr oeddent yn ei werthfawrogi'n fawr iawn. Yn gyffredinol, roedd staff lleoliadau'n awyddus i gymryd rhan a rhannu eu sgiliau a'u hangerdd gyda dysgwyr drwy gyflwyno rhai o'r gweithgareddau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos aelodau staff fu'n gweithio'n rhan-amser (tâl fesul awr), megis Cynorthwyr Cymorth Dysgu, a oedd yn gallu cynyddu nifer yr oriau y buont yn gweithio ac felly eu hincwm.
- 5.27 Roedd staff lleoliadau'n gobeithio y byddai'r Treial yn helpu dysgwyr i ailgysylltu â'r ysgol, cefnogi eu lles, a darparu cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu. Roedd staff hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i feithrin perthynas â dysgwyr.

‘Roedd amser i roi gwir ymdrech ac angerdd i mewn i'r hyn rydych chi'n ei wneud. Yn y dosbarth maen nhw'n cael awr i wneud rhywbeth ac yna symud ymlaen at y peth nesaf. Rhoddodd y project hwn amser iddyn nhw ddatblygu sgiliau ac ymfalchïo yn eu gwaith. Fe roddodd gyfle iddynt fod yn nhw eu hunain a mynegi eu hunain yn wirioneddol.’ Athro/Athrawes

- 5.28 Cydlynodd y pum ysgol a ymgeisiodd fel clwstwr ddarpariaeth ymysg ei gilydd, ac elwodd yr ysgol uwchradd a fu'n bartner i'r sefydliad AB lleol o ddarpariaeth rhai gweithgareddau gan staff y coleg (gyda staff ysgol uwchradd yn goruchwyllo).
- 5.29 Dywedodd staff lleoliadau a gyflwynodd weithgareddau'r Treial eu bod yn awyddus ac yn ymroddedig, gan gyfrannu amrywiaeth o sgiliau allgyrsiol, megis celf, crefft ymladd ac ysgol goedwig. I rai o arweinwyr lleoliadau'r Treial, roedd y llwyth gwaith ychwanegol oedd ei angen i gydlynu'r Treial yn bryder, yn enwedig i'r rhai fu'n ymgymryd â rolau sefydliadol neu oruchwyllo, a chodwyd pryderon ynghylch cynladwyedd hirdymor y ddarpariaeth hon. Gwaethygyd y mater gan ddiffyg cyllid ar gyfer amser arweinwyr y Treial.

'Dw i'n eitha mwynhau [trefnu darpariaeth allanol], dim ond fy mod i'n treulio hanner diwrnod ar hynny ac wedyn dw i ddim wedi gwneud fy ngwaith bob dydd fel Pennaeth, ac mae angen i mi wneud hynny [...]. Gallwn ei roi i fy staff swyddfa ond wedyn does ganddyn nhw ddim amser i wneud eu swyddi.'

Arweinydd lleoliad yn y treial

Ffactorau galluogi a rhwystrau

- 5.30 Roedd ymagweddau cadarnhaol at ymgysylltu â'r Treial y lleoliadau fu'n cymryd rhan yn ffactorau galluogi oherwydd awydd y lleoliadau i gymryd rhan a'u penderfyniad i greu buddion i'w dysgwyr danio eu hymdrechion i wneud y Treial yn llwyddiant.

'Chi'n gwybod, mae ein hysgolion ni'n anhygoel. Maen nhw eisiau bod yn rhan ohono, ac fe fyddan nhw'n gwneud popeth.' Swyddog addysg mewn ALI

- 5.31 I rai lleoliadau roedd gallu defnyddio'r cyllid i ddarparu **cludiant** adref ar ôl y gweithgareddau yn ffactor allweddol fu'n galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn y Treial. Bu i'r lleoliadau a wnaeth hyn naill ai hurio coetsis i fynd â phlant/pobl ifanc adref ar ddiwedd y dydd, neu dalu am docynnau bws.

'Aeth swm aruthrol o'r gyllideb tuag at gludiant... A dyna fu'r un peth gwych am hyn mewn gwirionedd, yw i ni fedru darparu cludiant adref i bob un disgybl bob nos. Nawr mae hynny wedi chwalu rhwystrau enfawr i'n disgyblion ni gan mai

hynny oedd un o'r pethau fu'n atal ein disgyblion rhag mynychu.' Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.32 Soniodd eraill fod gallu darparu **bwyd** gyda'r gweithgareddau yr un mor hanfodol o ran denu a chadw dysgwyr. Roedd rhai lleoliadau'n cynnig bwyd unwaith yr wythnos, fel brecwast ar ddydd Gwener, roedd eraill yn darparu byrbrydau ar ôl y gweithgareddau, ac roedd un lleoliad yn darparu pryd o fwyd cynnes llawn bob dydd fel rhan o ddarpariaeth y Treial.

'Roedd y ffaith eu bod yn gallu cael pryd o fwyd o fewn y prosiect yma yn ffactor anferth.' Arweinydd lleoliad yn y Treial

- 5.33 Fel y nodwyd uchod, soniodd lleoliadau'r Treial fod **perthnasoedd fu'n bodoli eisoes gyda darparwyr allanol** wedi tynnu rhywfaint o bwysau oddi ar staff lleoliadau i gynllunio pob gweithgaredd a galluogi lleoliadau i gynnig ystod ehangach o ddarpariaeth, lle roedd gan ddysgwyr yr amser i ymrwymo i'r hyn yr oeddent yn ei wneud, a oedd yn ei dro yn helpu i gynnal ymgysylltiad dysgwyr.

- 5.34 Er hynny, mewn rhai achosion, roedd argaeledd darparwyr allanol lleol yn gyfyngedig, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau yr oedd mwy o alw amdanynt ac am leoliadau mewn ardaloedd mwy gwledig.

'Mewn rhai ardaloedd, lle roedd ysgolion eisiau dod â darparwyr allanol i mewn, doedd dim marchnad am hynny. Efallai nad oedd sefydliad naill ai'n lleol neu'n genedlaethol â darpariaeth yn eu hardal. Felly, mater i'r ysgol a staff yr ysgol oedd cyflwyno'r ddarpariaeth.' Swyddog Llywodraeth Cymru

- 5.35 Y prif rwystr ar gyfer lleoliadau oedd yr **amser paratoi byr** gan fod y Treial i fod i ddechrau ar ddechrau tymor y Gwanwyn, gan olygu amserlen gynllunio dynn adeg gwyliau'r Nadolig, ar yr un pryd â chynnydd mewn heintiau coronafeirws. Roedd hyn yn golygu ychydig iawn o amser i gael ffurflenni caniatâd gan rieni/gofalwyr a threfnu cludiant i'r rhai oedd yn byw ymhellach i ffwrdd. Effeithiodd hefyd ar eu gallu i drefnu darparwyr allanol neu i dreulio amser yn ymgynghori â phlant/pobl ifanc ar ba fathau o weithgareddau yr hoffent eu gwneud. Roedd eraill yn dal i deimlo y gallai fod wedi atal rhai lleoliadau rhag cymryd rhan.

‘Roedd yr amserlen i sefydlu pethau yn her, yn bendant. Hynny yw, fel ysgol, rydym wedi hen arfer gweithio ar garlam, ond gallaf ddeall pam na fu i lawer o bobl ymgeisio ar gyfer y prosiect hwn achos digwyddodd e mor gyflym.’

Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.36 Roedd rhywfaint o ddryswch cychwynnol ynghylch a oedd angen cofrestru darparwyr allanol gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) i redeg gweithgareddau o fewn lleoliadau (eglurwyd wedyn nad oedd angen gwneud hynny). Byddai'r gofyniad am gofrestriad CGA wedi atal lleoliadau rhag defnyddio darparwyr bach, lleol na fyddent efallai'n cydnabod eu hunain fel darparwr addysg neu'n cael eu digalonni gan y ffi gofrestru. Roedd rhai lleoliadau'n cael trafferth dod o hyd i ddarparwyr allanol oedd yn gallu darparu ar gyfer eu hamser gorffen a chynnig gweithgareddau fel rhan o ddiwrnod ysgol estynedig. Gwaethygyd y materion hyn gan amserlenni tynn, gan mai ychydig iawn o amser oedd gan lleoliadau i oresgyn y rhwystrau hyn.
- 5.37 Bu cyfyngu ar ba grwpiau blwyddyn allai gymryd rhan mewn rhai lleoliadau oherwydd pryderon ynghylch gofod addas ar gyfer cynnal darpariaeth. Cododd y rhwystr hwn bryderon ynghylch cynladwyedd y Treial pe bai'n parhau neu'n cael ei ehangu i gynnwys mwy o grwpiau blwyddyn yn y dyfodol.

Dysgu o gynllunio ar lefel y lleoliad

- 5.38 Cafodd y Treial rywfaint o sylw cymysg yn y cyfryngau i ddechrau. Roedd rhai'n canolbwyntio'n ormodol ar ganfyddiad y treial fel estyniad i oriau ysgol arferol, a chanfyddiad anghywir y byddai'n ofynnol i athrawon fod yn rhan o'r broses, yn hytrach na chael yr opsiwn i gymryd rhan a chael eu talu amdano. Tra'n cydnabod cyflymder dylunio a chyflawni, dysgu allweddol o hyn oedd y dylid bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu'n gynnar â'r holl randdeiliaid posibl er mwyn esbonio nodau ac amcanion y Treial ac i ymgysylltu'n well â lleoliadau er mwyn osgoi unrhyw gamsyniadau.
- 5.39 Dyluniwyd y Treial gydag ymagwedd hyblyg at gynllunio: roedd gan lleoliadau awtonomi o ran strwythur a chynnwys y sesiynau, a'u galluogodd i ddarparu gweithgareddau atyniadol ac amrywiol a oedd wedi'u teilwra i'w hanghenion lleol. Ystyriodd lleoliadau fod yr ymagwedd hyblyg hon yn gadarnhaol, gan iddi eu galluogi i gynllunio eu rhaglen weithgareddau o amgylch eu cyd-destun lleol ac

anghenion eu dysgwyr. Roedd hefyd yn caniatáu i leoliadau wario'r cyllid ar fuddsoddiadau mwy hirdymor, fel gwella mannau chwarae awyr agored trwy brynu offer newydd neu ychwanegu canopi ar gyfer chwarae pob tywydd.

- 5.40 Cafodd lleoliadau gyfle i weithio mewn 'clwstwr', a'u galluogodd i gydweithio, rhannu adnoddau, a dysgu oddi wrth ei gilydd. Elwodd y lleoliadau a fu'n gweithio mewn clwstwr o allu rhannu eu hoffer yn ogystal â dod o hyd i rai darparwyr allanol fel grŵp, gan roi gwell gwerth am arian.

'Roedd ganddon ni i gyd ddarparwyr tebyg a chwpl o rai gwahanol, felly fe wnaethon ni gysylltu â nhw eto fel clwstwr wedyn. Roedd hynny'n gryfach gan i ni fedru cynnig gwerth am arian.' Arweinydd lleoliad yn y treial

- 5.41 Dywedodd arweinwyr lleoliadau a staff ei bod yn fwy heriol ymgysylltu â phlant a phobl ifanc 'anodd eu cyrraedd'.

'Roedden ni'n gobeithio targedu myfyrwyr [anodd eu cyrraedd] i allu rhoi mwy o gefnogaeth iddyn nhw [...]. Y myfyrwyr hyn, dydyn nhw ddim eisiau aros yn yr ysgol. Mae'n anodd eu darbwylo i aros yn hirach.' Arweinydd lleoliad yn y treial

6. Cyflwyno

- 6.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gweithgareddau a ddarparwyd gan leoliadau fel rhan o'r Treial, gan gynnwys lleoliadau, amseru a lefelau cofrestru a phresenoldeb. Trafodir y cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd, yn ogystal â'r ffactorau galluogi a'r rhwystrau yr oedd lleoliadau'n eu hwynebu. Mae'r farn a adlewyrchir yn y bennod hon yn perthyn i swyddogion Llywodraeth Cymru, staff lleoliadau a darparwyr allanol fu'n rhan o redeg y gweithgareddau.

Lansio'r rhaglen

- 6.2 Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru y cyfwelwyd â hwy fod i'r lleoliadau a ddechreuodd yn hwyrach elwa o'r hyn a ddysgwyr gan y dechreuwyr cynnar, gan osgoi'r maglau a brofwyd gan y lleoliadau a ddechreuodd ynghynt. Er enghraifft, darparu opsiynau gweithgareddau wrth gefn rhag ofn na fyddai modd i ddarparwyr trydydd parti fod yn bresennol, a hefyd esbonio nad oedd cofrestriad CGA yn orfodol i ddarparwyr allanol.

Y gweithgareddau a gyflwynwyd

- 6.3 Fel rhan o'r Treial, roedd lleoliadau'n darparu ystod eang o weithgareddau i apelio at wahanol ddymuniadau a diddordebau'r holl ddysgwyr. Roedd y gweithgareddau a ddarparwyd yn cynnwys nifer fawr o weithgareddau chwaraeon a chorfforol (e.e. ffitrwydd, pêl-droed, rygbi, pêl-fasged, pêl-feddal, pêl-rwyd, nofio, pilates, ioga, pêl-fâs, paffio, sglefrfyrddio, jiwdo, carate, golff, parkour, Tai Chi, hunanamddiffyn, criced, osgoi'r bêl, Hyfforddiant Cyfwng Dwysedd Uchel, codi hwyl, Zumba, badminton, dawns, gymnasteg, milltir bob dydd, sglefrolio a tennis bwrdd), gweithgareddau awyr agored, ysgol goedwig, celf a chrefft (megis arlunio, braslunio, paentio â bysedd, murluniau, crochenwaith, drama, opera, ysgrifennu ffilm, ffotograffiaeth, cerddoriaeth, bod yn DJ), coginio, bwyta'n iach, clwb llyfrau, gemau bwrdd, Lego, gwyddbwyll, papur newydd i'r ysgol, clwb Cymreig, a gweithgareddau digidol, gan gynnwys codio, realiti rhithwir, Minecraft a roboteg. Roedd y gweithgareddau hefyd yn cynnwys teithiau, er enghraifft i'r sinema neu'r theatr, llinell sip a chrefft goedwig.

- 6.4 Roedd rhai lleoliadau'n cynnig ystod o gymorth academaidd fel rhan o'r Treial, gan gynnwys sgiliau rhifedd, TGCh a llythrennedd neu gymorth gwaith cartref, fel ffordd o fodloni'r gofyniad y dylai 20 y cant o'r amser weddu i sgiliau academaidd craidd. Soniodd un lleoliad am gynnig grwpiau astudio ar gyfer gwahanol bynciau i ddysgwyr oedd am aros yn yr ysgol i wneud eu gwaith cartref. Roedd hyn yn arbennig o fuddiol i'r rhai y mae eu bywydau cartref yn fwy di-drefn ac yn ei chael hi'n anodd gwneud eu gwaith cartref adref.
- 6.5 Fodd bynnag, ffocws ar weithgareddau cyfoethogi oedd y prif ysgogydd ar draws y lleoliadau fu'n cymryd rhan, gyda llawer o leoliadau yn ymgorffori sgiliau academaidd craidd i'r gweithgareddau a ddarparwyd ganddynt.
- 'Mae gan ysgol yng Nghaerdydd storiwr, felly rydych chi'n edrych ar ddatblygu llythrennedd yno. Roedd un ysgol yn y Cymoedd wedi trefnu i wasanaeth dysgu ddod i mewn a datblygu rhaglen i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, maen nhw wedi llwyddo i gefnogi eu cynnydd llythrennedd a rhifedd.' Swyddog Llywodraeth Cymru
- 6.6 Roedd rhai lleoliadau'n darparu'r holl weithgareddau ar yr un pryd ac yn rhannu'r dysgwyr yn grwpiau fel y gallent oll roi cynnig ar bob gweithgaredd. Roedd eraill yn cynnig nifer o weithgareddau bob dydd, gan roi cyfle i ddysgwyr ddewis pa un i ymuno ag ef. Roedd rhai lleoliadau yn dosbarthu bwyd ar rai achlysuron, fel brechwast ar foreau Gwener. Dywedodd un lleoliad eu bod yn darparu pryd cynnes o fwyd bob nos, a bod hynny'n hanfodol gan i lawer o deuluoedd yn y lleoliad ei chael hi'n anodd bwydo eu plant. Roedden nhw'n defnyddio'r cyfle i ganolbwyntio ar fwyta'n iach.
- 6.7 Darparwyd y rhan fwyaf o weithgareddau yn Saesneg, gydag un lleoliad yn dweud eu bod nhw'n cynnig clwb Cymraeg fel un o weithgareddau'r treial. Mewn rhai achosion, roedd staff/darparwyr yn cyflwyno'r gweithgareddau yn annog 'defnyddio geiriau Cymraeg yn achlysurol' fel rhan o weithgareddau'r Treial (yn ogystal â'r 'clwb Cymraeg').

Lleoliadau ac amseru

- 6.8 Rhedwyd y gweithgareddau'n bennaf gan ddefnyddio cyfleusterau'r lleoliadau, megis cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored, ardaloedd coedwig, caeau, ceginau, ystafelloedd celf ac ystafelloedd dosbarth. Soniodd rhai lleoliadau hefyd am ddefnyddio cyfleusterau lleol fel y ganolfan gymunedol a'r parc lleol. Ambell dro aeth dysgwyr ar deithiau oddi ar y safle, er enghraifft i'r sinema. Cyflwynodd darparwyr allanol weithgareddau yn y lleoliadau. Roedd yr ysgol a fu'n bartner i'r sefydliad AB lleol yn gallu defnyddio cyfleusterau'r Coleg i gyflwyno darpariaeth, ac roeddent yn teimlo bod hynny'n hanfodol i'w rhaglen. Roedd y sefydliad AB ar yr un safle â'r ysgol, felly nid oedd angen cludiant, ac fe wnaeth staff AB roi benthyg eu harbenigedd i gyflwyno gweithgareddau penodol, fel ffotograffiaeth neu goginio.
- 6.9 Gan amlaf roedd gweithgareddau yn digwydd yn syth ar ôl y diwrnod ysgol (e.e. 3-4 y prynhawn). Adlewyrchwyd hyn yn yr arolwg rhieni/gofalwyr (n=157)⁶, lle dywedodd yr holl ymatebwyr (100 y cant) fod eu plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl y lleoliad, o'i gymharu â dim ond 5 y cant a ddywedodd bod eu plant hefyd yn mynychu gweithgareddau cyn yr ysgol⁷.
- 6.10 Roedd rhai lleoliadau'n cyflwyno gweithgareddau am awr bob dydd, tra bod eraill yn darparu gweithgareddau hirach dri neu bedwar diwrnod yr wythnos. Roedd un ysgol uwchradd yn cyflwyno ystod o saith neu wyth o weithgareddau bob dydd (dydd Llun i ddydd Gwener), am dair awr ar ôl ysgol. Gan amlaf, roedd yn well gan ddysgwyr beidio aros yn yr ysgol am awr ychwanegol ar ddydd Gwener, felly dewisodd rhai lleoliadau gynnal sesiwn frecwast fore Gwener yn lle. Roedd eraill, a oedd yn cynnal sesiynau hirach yn ystod gweddill yr wythnos, yn cadw dydd Gwener yn glir.


'Da ni'n dod i mewn, maen nhw'n cael brechwast, yn helpu i goginio brechdan cig moch, brechdan sosej, brechdan wyau, ac maen nhw'n gwerthuso'r wythnos a sut mae'n mynd, neu'n gwerthuso eu lles personol eu hunain a sut maen nhw'n mwynhau neu ddim yn mwynhau'r clybiau.' Staff lleoliad/darparwr

⁶ Trwy gydol yr adroddiad, mae meintiau sylfaen (a nodir fel 'n' neu 'Sylfaen', yn cyfeirio at y cwestiwn arolwg sy'n cael ei ddisgrifio.

⁷ Caniatwyd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn, felly nid yw'r cyfanswm yn adio i 100 y cant.

6.11 Roedd y lleoliadau'n rhoi'r cynnig i ddysgwyr ddewis pa weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt. Roedd rhai lleoliadau'n cynnig nifer o weithgareddau bob dydd i blant/pobl ifanc ddewis ohonynt, tra bo eraill yn disgwyl i ddysgwyr ymuno â gweithgareddau ar rai dyddiau ond nid pob un. Mae data o'r arolwg rhieni/gofalwr yn dangos i draean o'r dysgwyr fynychu gweithgareddau unwaith neu ddwywaith yr wythnos, roedd tua thraean yn mynychu tair neu bedair gwaith yr wythnos, a thua thraean yn mynychu bob diwrnod ysgol.

Ffigur 2: Amllder dysgwyr fu'n mynychu gweithgareddau'r Treial



Ffynhonnell: Arolwg rhieni/gofalwr, Sylfaen: 157.

Nifer fu'n manteisio a phresenoldeb

6.12 Dywedodd arweinwyr lleoliadau'r Treial a staff lleoliadau ei bod yn anodd cael dysgwyr i ail-gydio mewn darpariaeth allgyrsiol cyn y Treial. Rhoddodd y Treial gyfle i leoliadau gynnig ystod ehangach o weithgareddau a chynnig darpariaeth fwy cynhwysfawr, a drefnwyd yn dda nag a wnaed yn flaenorol. O ganlyniad, nododd pob lleoliad lefelau uchel o fanteisio ar y gweithgareddau a phresenoldeb ymhlith y rhai a gofrestrodd.

‘Chawson ni ddim byd tebyg i hyn am rai blynyddoedd. A hyd yn oed wedyn er bod pobl yn gofyn amdano, ti dal ddim yn siŵr. Mae pobl yn dod unwaith ac wedyn maen nhw'n stopio dod. Ond wnaethon nhw ddim, roedd hi'n dal i fynd ac roedd yr adborth yn bositif iawn.’ Staff lleoliad/darparwr

Roedd rhai lleoliadau'n gallu defnyddio hyn i roi hwb i ddarpariaeth allgyrsiol barhaus hyd yn oed ar ôl i gyllid y Treial ddod i ben.

- 6.13 Roedd staff lleoliadau'n gyson yn nodi lefelau uchel o gofrestru a phresenoldeb gan ddysgwyr, a oedd yn annog mwy o ddysgwyr i fynychu wrth i'r Treial barhau. Pwysleisiwyd hyn gan y plant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy a ddywedodd eu bod yn gyffrous i gymryd rhan yn y gweithgareddau ac yn gwerthfawrogi bod y ddarpariaeth am ddim:

'Roedd llawer o'n hwynebâu'n wên i gyd pan glywsom am y clybiau a hynny cyn i ni glywed am y daith hyd yn oed. Roedden ni i gyd eisiau gwneud e, wel, roedd y rhan fwyaf ohonon ni eisiau, hyd yn oed os nad oedd taith.'

Plentyn/person ifanc

- 6.14 Roedd rhai lleoliadau'n darparu cymhellion i ddysgwyr gymryd rhan, er enghraifft system bwyntiau lle byddent yn ennill pwyntiau ar gyfer pob sesiwn a fynychwyd, gan arwain at wobrau megis taith i'r sinema neu noson pizza. Fodd bynnag, nododd nifer o'r rhai y cyfwelwyd â hwy nad oedd angen y cymhellion yn y pen draw gan fod dysgwyr yn awyddus i fynychu'r gweithgareddau beth bynnag.

'Gwnaethon ni anfon amserlen allan a gofyn i blant ddewis beth oedden nhw eisiau ei wneud, ond roedden ni hefyd, yn cynnig cymhelliant ar ffurf digwyddiad arbennig - fan pizza a hufen iâ - ar ddiwedd y 10 wythnos, i'r plant hynny oedd wedi cymryd rhan mewn tri neu fwy o'r clybiau [yr wythnos].' Staff lleoliad/darparwr

- 6.15 Mewn rhai achosion roedd lleoliadau'n ei gweld hi'n anodd ennyn diddordeb y plant a'r bobl ifanc mwy difreintiedig yn y grwpiau hynny - yr oeddent efallai angen y gweithgareddau fwyaf.

- 6.16 Nododd nifer fach o leoliadau ostyngiad mewn presenoldeb ar ôl yr wythnosau cyntaf. Roedd gwahanol resymau dros hyn, gan gynnwys rhieni/gofalwyr nad oeddent am i'w plant gymryd rhan, y plant eisiau mynychu yn achlysurol yn hytrach na gorfod ymrwymo i weithgaredd rheolaidd, plant yn blino ar ddiwedd y diwrnod ysgol, neu'n teimlo bod y gweithgareddau'n rhy strwythuredig.

Arweiniad a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

- 6.17 Darparwyd arweiniad a chymorth i'r lleoliadau drwy gyfarfodydd wythnosol neu bob pythefnos gyda Chynghorydd y Treial, a gynhaliwyd ar-lein oherwydd y cyfyngiadau coronafeirws. Yn ystod y Treial, cynhaliwyd mwy na 60 o gyfarfodydd rhwng lleoliadau a Chynghorydd y Treial.
- 6.18 Roedd arweinwyr lleoliadau ar y cyfan yn gadarnhaol iawn am y gefnogaeth a dderbyniwyd gan Gynghorydd y Treial, fodd bynnag soniodd rhai nad oedd angen cefnogaeth neu nad oeddent yn sicr a oedd cefnogaeth ar gael ai beidio.

'Roedden nhw [Llywodraeth Cymru] yn gefnogol iawn. Cawsom gyfarfodydd wythnosol weithiau am gyfnod gan iddo orfod cael ei droi o gwmpas yn gyflym iawn. Roedd 'na lot o gefnogaeth.' Arweinydd lleoliad yn y treial

Ffactorau galluogi a rhwystrau

- 6.19 Ar y cyfan, dywedodd staff lleoliadau a darparwyr fod gweithredu'r Treial wedi mynd yn dda iawn. Roedd **ymgysylltiad staff** yn y rhaglen a'u parodrwydd i ddarparu gweithgareddau, gan gynnwys ar adegau cymryd drosodd o ddarparwyr a oedd yn absennol, yn cynrychioli ffactor galluogi allweddol. Roedd yn golygu bod y lleoliadau yn agored i roi cynnig ar bethau newydd ac archwilio posibiliadau gwahanol y byddai eu dysgwyr yn elwa ohonynt.
- 6.20 Yn yr un modd, roedd **rhieni/gofalwyr yn awyddus i gefnogi** lle y gallent, er enghraifft bod yn hyblyg o ran amserau codi, gan iddynt weld yr effaith gadarnhaol yr oedd y rhaglen yn ei chael ar eu plant.
- 6.21 Roedd cyflwyno darpariaeth o fewn **amserlenni tynn** yn cael ei ystyried yn her allweddol ymhlith lleoliadau. I rai, roedd amserlen gyflym y broses ymgeisio a sefydlu'r Treial yn golygu nad oedden nhw'n gallu defnyddio'r holl gyllid o fewn yr amser penodedig.
- 6.22 Er bod y staff wedi ymroi i gynnal gweithgareddau cyfoethogi i ddysgwyr, roedd **absenoldeb staff**, i raddau helaeth oherwydd y coronafeirws, hefyd yn rhwystr i'w cyflwyno. Roedd yn anodd wedyn i ddod o hyd i staff newydd, er ym mhob digwyddiad llwyddodd y lleoliadau i oresgyn hyn er mwyn parhau â sesiynau ar gyfer y dysgwyr, hyd yn oed os bu'n rhaid trefnu sesiynau gwahanol funud olaf.

6.23 Profodd rhai lleoliadau broblemau gyda dysgwyr penodol yn dewis peidio â mynychu'r Treial, er gwaethaf ymgysylltu da iawn yn gyffredinol ar draws y grwpiau blwyddyn a ddewiswyd. Roedd hyn weithiau oherwydd materion cludiant, gan nad oedd rhieni/gofalwyr yn gallu dygymod â gwahanol amserau codi (os oedd ganddynt nifer o blant, rhai yn cymryd rhan yn y Treial a rhai ddim) ac nid oeddent am i'w plant fynd adref yn y tywyllwch ar eu pennau eu hunain yn y gaeaf. Yn ogystal, nododd rhai lleoliadau iddynt ddod yn ymwybodol bod cyfrifoldebau gofalu plant/pobl ifanc yn rhwysr, gan y disgwyliwyd iddynt fod adref i ofalu am aelodau eraill o'r teulu. Roedd hyn yn rhywbeth y gallai lleoliadau gynorthwyo gydag ef fel a phan gafodd ei nodi fel rhwysr, er enghraifft drwy ddarparu cludiant yn ôl adref ar ôl y gweithgareddau.

Dysgu o'r cyflwyno

6.24 Roedd lleoliadau'n darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ac, ar y cyfan, yn rhoi dewis i ddysgwyr ynghylch pa sesiynau yr oeddent am eu mynychu. Roedd hyn yn gweithio'n dda gan ei fod yn cynnal diddordeb dysgwyr ac yn rhoi cyfle iddynt archwilio'r hyn yr oeddent yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi. Roedd rhai lleoliadau'n annog dysgwyr i fynychu pob sesiwn a ddarparwyd, gan gynnig gweithgareddau a phrofiadau newydd iddynt na fyddent wedi'u cael fel arall.

6.25 Rhoddodd y Treial rywfaint o bwysau ychwanegol ar staff lleoliadau. Fodd bynnag, roedd cynnwys darparwyr allanol wedi helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau. Er mwyn lleihau'r pwysau ar staff lleoliadau, penododd rhai lleoliadau rôl 'cydlynedd' hefyd i fod yn gyfrifol am logisteg ac arwain yr aelodau o staff fu'n cyflwyno'r ddarpariaeth. Nododd lleoliadau nad oedd ganddynt gydlynedd penodedig y byddai wedi bod yn ddefnyddiol clustnodi cyllideb ar ei gyfer.

6.26 Dywedodd arweinwyr a staff lleoliadau ei fod yn fwy effeithiol, o ystyried yr amserlen dynn, i ddarparu gweithgareddau yn fewnol neu drwy ddarparwyr allanol yr oeddent wedi gweithio gyda nhw o'r blaen, yn hytrach nag adeiladu perthynas â darparwyr newydd. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai arweinwyr lleoliadau o'r farn bod cyfle wedi'i golli i gydweithio'n agosach â darparwyr a sefydliadau cymunedol lleol.

'Dwi'n meddwl bod y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol, oherwydd eu bod nhw mor amrywiol a ddim o reidrwydd â chorff mantell i ddod oddi tano, wedi'u colli.'
Arweinydd lleoliad yn y treial

- 6.27 Awgrymodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn i leoliadau dargedu dysgwyr ar sail angen yn hytrach na grwpiau blwyddyn penodol, er mwyn cefnogi'r rheiny yr effeithiwyd fwyaf negyddol arnynt gan y coronafeirws.

'Mae gan ysgolion lawer o wybodaeth erbyn hyn ynghylch effeithiau'r pandemig ar wahanol grwpiau o blant [...] a'u teuluoedd felly byddem yn gofyn i ysgolion ystyried grwpiau penodol o blant.' Swyddog addysg mewn ALI

Ystyriaethau o ran cynladwyedd

- 6.28 Mynegodd staff lleoliadau ac arweinwyr lleoliadau'r Treial bryderon y byddai darparu gweithgareddau cyfoethogi dros nifer cyfyngedig o wythnosau yn codi disgwyliadau ymhlith plant/pobl ifanc a theuluoedd na fyddent yn cael eu bodloni yn y tymor hir, a allai arwain at siom.
- 6.29 Nid oedd pob lleoliad yn ystyried cynladwyedd yn y cam cynllunio, yn rhannol oherwydd yr amserlenni tynn. Fodd bynnag, o ystyried llwyddiant y gweithgareddau ymhlith dysgwyr, roedd llawer o leoliadau wedi dechrau archwilio cyfleoedd i ymestyn y gweithgareddau y tu hwnt i gyfnod y Treial.

'Gan yr oedd ffotograffiaeth ddigidol mor llwyddiannus mae disgyblion wedi gofyn i ni barhau â hynny ar ôl i'r ddarpariaeth [Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol] ddod i ben.' Arweinydd lleoliad yn y treial

'Yn eithaf cyflym, erbyn wythnos tri mae'n debyg, roedden ni'n meddwl: 'mae angen i ni barhau â hyn. Sut ydyn ni'n mynd i sicrhau bod hyn yn cario ymlaen? Allwn ni ddim gwario cymaint o arian. Ond gadewch i ni weld sut allwn ni wneud i hyn weithio.' Arweinydd lleoliad yn y treial

- 6.30 Dywedodd nifer o staff y cyfwelwyd â hwy fod lleoliadau'n parhau â'r ddarpariaeth ar ôl i gyllid y Treial ddod i ben. Cafwyd enghreifftiau o leoliadau oedd yn llwyddo i barhau i ddarparu gweithgareddau ar yr un lefel neu wedi ymestyn darpariaeth i wahanol grwpiau oedran, tra bod eraill yn gorfod gostwng graddfa'r gweithgareddau er mwyn gallu parhau. Roedd lleoliadau'n gallu gwneud hynny naill ai drwy

ffynonellau ariannu ychwanegol (e.e., roedd clwstwr o leoliadau wedi gwneud cais ar y cyd am gyllid), neu drwy ailneilltuo rhan o'u cyllid craidd.

6.31 Nododd arweinwyr lleoliadau'r treial a staff lleoliadau'r canlynol fel y prif rwystrau i barhau i ddarparu'r Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol:

- **Cyfngiadau ariannol** - Roedd hyn yn bryder allweddol, gyda lleoliadau'n datgan y byddai cyllido swm llai dros y tymor hir yn gwella cynladwyedd y ddarpariaeth. Roedd arweinwyr a staff lleoliadau'n teimlo'n gryf na fyddai'n bosib cynnal gweithgareddau ar gyfer y lleoliad cyfan ar yr un pryd yn y tymor hir, oherwydd ystyriaethau ariannol a straen posib ar staff.
- **Capasiti cyfyngedig** – Yn gyffredinol, roedd staff yn hapus i ddarparu'r Treial yn y tymor byr ond roeddent yn teimlo na fyddai ganddynt gapasiti i ddarparu gweithgareddau ar yr un raddfa dros y tymor hir. Byddai angen darparwyr allanol ac, mewn nifer o ardaloedd, roedd diffyg darparwyr i ddarparu rhaglen fel hyn ar raddfa fawr. Roedd hyn wedi'i waethygu gan ddiffyg capasiti ymhlith staff lleoliadau i greu cysylltiadau â darparwyr newydd.
- **Rhwystrau i ymgysylltu â dysgwyr** – Roedd cludiant adref pan gynhaliwyd gweithgareddau ar ôl yr ysgol yn rhwystr, yn arbennig i'r rhai mewn ardaloedd gwledig neu fwy difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd a gall darparu trafndiaeth lyncu cyfran sylweddol o'r cyllid a ddarperir i leoliadau.
- **Gostyngiad posib mewn ymgysylltiad dros amser** – Mynegodd rhai staff lleoliadau'r risg bosib o ddirywiad mewn ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr pe bai sesiynau'n cael eu rhedeg dros gyfnod hirach o amser.

6.32 Ar y llaw arall, nododd lleoliadau rai elfennau allweddol a allai eu galluogi i ymestyn cyflwyno'r gweithgareddau:

- **Cyllid** – Fel y nodwyd eisoes, bu i rai lleoliadau sicrhau cyllid ychwanegol neu ailneilltuo eu cyllid craidd i'r Treial.

- **Partneriaethau / gweithio mewn clwstwr gyda lleoliadau eraill -**
Defnyddiodd lleoliadau a oedd yn gweithio fel clwstwr adnoddau ar y cyd i gynnal rhai o'r gweithgareddau.
- **Offer a brynwyd** – Roedd rhai lleoliadau'n defnyddio cyfran o'r cyllid i brynu offer, er enghraifft offer ffotograffiaeth neu chwaraeon, ac fe fyddan nhw'n gallu parhau i'w defnyddio ar ôl i'r cyllid ddod i ben.
- **Cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr** – Nododd lleoliadau ymgysylltu gwell gan ddysgwyr a fu'n ymwneud yn fwy â chynllunio'r gweithgareddau, ac roeddent yn awyddus i flaenoriaethu cyd-gynhyrchu yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.
- **Cynnwys dysgwyr hŷn** – Mewn rhai lleoliadau denodd y gweithgareddau ddiddordeb dysgwyr hŷn, ac roedd arweinwyr lleoliadau'r Treial yn ystyried cyd-gyflwyno gweithgareddau gyda dysgwyr hŷn ('llysgenhadon') yn y dyfodol.

7. Profiadau plant a phobl ifanc

7.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno profiadau plant a phobl ifanc o weithgareddau'r Treial. Mae'r canfyddiadau allweddol yn seiliedig ar ddata a gasglwyd drwy arolygon cyfranogwr (plant a phobl ifanc) ac arolygon rhieni/gofalwyr, yn ogystal â grwpiau ffocws a chyfweiliadau â phlant a phobl ifanc fu'n cymryd rhan yn y gweithgareddau Treial a rhieni/gofalwyr.

Cofrestru a chymhellion i gymryd rhan

7.2 Hysbyswyd plant a phobl ifanc am weithgareddau'r Treial naill ai drwy eu rhieni/gofalwyr, a dderbyniodd gyfathrebiadau o'u lleoliad, neu'n uniongyrchol gan eu lleoliadau. Amlygodd cyfranogwyr y grŵp ffocws, ar ôl iddynt gael gwybod am y Treial, eu bod yn gyffrous ac yn awyddus i gofrestru ar gyfer y gweithgareddau. Bu i rai lleoliadau ddewis carfan o blant a phobl ifanc ymlaen llaw a'u gwahodd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Treial a bu i'r athrawon eu hannog i gofrestru hefyd.

7.3 Gwnaeth plant a phobl ifanc drafod y cyfle hwn gyda'u rhieni/gofalwyr, yna ymuno â'r Treial. Un peth yr oedd rhieni/gofalwyr yn ei ystyried oedd a fyddai eu plentyn/plant yn fodlon ymrwymo i 10 wythnos gyfan y Treial. Yn gyffredinol, roedd rhieni/gofalwyr fu'n cymryd rhan yn hapus iawn i'w plant fynychu'r Treial ac yn credu y byddai'r gweithgareddau o fudd i'w plant:


'Roeddwn i'n meddwl y byddai'n dda i [fy mhlentyn] fod yn fwy cymdeithasol a rhyngweithio â'r plant eraill ac y byddai mewn gwirionedd yn rhoi rhywbeth gwell i [fy mhlentyn] ei wneud ar ôl ysgol na dim ond eistedd mewn parc neu eistedd ar dechnoleg.' Rhieni/gofalwyr

7.4 Soniodd cyfranogwyr yn ystod y grwpiau ffocws eu bod yn gyffrous am yr amrywiaeth o weithgareddau a gynigiwyd fel rhan o'r Treial. Roedd rhai lleoliadau hefyd wedi addo gwobr am gymryd rhan, er enghraifft taith am ddim (e.e., bowlïo) neu hufen iâ a pizza ar ddiwedd y Treial 10 wythnos, a oedd yn ysgogi plant a phobl ifanc i gofrestru ac ymrwymo i'r Treial.

'Roedd llawer o'n hwynebau'n wên i gyd pan glywsom am y clybiau a hynny cyn i ni glywed am y daith hyd yn oed. Roedden ni i gyd eisïau gwneud e, wel, roedd y rhan fwyaf ohonon ni eisïau, hyd yn oed os nad oedd taith.' Plentyn/person ifanc

7.5 Roedd y Treial yn cynnig cyfle i'r cyfranogwyr roi cynnig ar weithgareddau na fyddai modd iddynt eu gwneud fel arall. Dywedodd plant/pobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg pe na fydden nhw wedi cymryd rhan yn y Treial y bydden nhw wedi bod fwyaf tebygol o dreulio amser gyda ffrindiau (40 y cant) neu deulu (38 y cant) neu chwarae gemau fideo (40 y cant). Roedd ymatebion eraill (Ffigur 3) yn cynnwys gwyllo teledu/treulio amser ar-lein (36 y cant), gwneud rhywbeth creadigol (20 y cant) neu wneud gweithgaredd corfforol neu chwaraeon (34 y cant). Soniodd plant a phobl ifanc yn y grwpiau ffocws y byddent wedi mynychu clybiau eraill sydd ar gael yn eu lleoliad neu y byddent wedi aros gartref oherwydd y tywydd gwael yn ystod misoedd y gaeaf. Dywedodd rhieni y cyfwelwyd â hwy y byddai eu plant yn debygol o fod wedi bod gartref ar dechnoleg neu chwarae gemau fideo.

Ffigur 3: Sut y byddai plant/pobl ifanc wedi treulio'u hamser pe na bai'r Treial wedi'i gynnig




Ffynhonnell: Arolwg ar ôl y Treial. Sylfaen n: 329. Noder y gallai'r ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog.

Gweithgareddau'r Treial

7.6 Cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn ystod eang o weithgareddau fel rhan o'r Treial fel y'i disgrifiwyd yn gynharach. Cymerodd bron i ddau draean o ymatebwyr i'r arolwg ar ôl y Treial (64 y cant) ran mewn chwaraeon dan do neu weithgareddau

corfforol, roedd mwy na hanner yn gwneud celf a chrefft (55 y cant) a chwaraeon awyr agored/gweithgaredd corfforol (51 y cant) (Ffigur 4). Soniodd cyfranogwyr y grŵp ffocws hefyd am fynd i'r sinema, ar wibdeithiau, creu papur newydd ysgol a chael gweithgareddau ymarfer corff dwys.

Ffigur 4: Gweithgareddau'r Treial y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt



Ffynhonnell: Arolwg ar ôl y Treial. Sylfaen n: 329. Noder y gallai'r ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog.

7.7 Roedd plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o weithgareddau oedd ar gael, yn ogystal â'r cyfle i roi cynnig ar bethau newydd a dysgu sgiliau.


'Nes i fwynhau dawns a chwaraeon oherwydd roedden nhw'n gorfforol ac yn llawer o hwyl. Fe wnes i fwynhau'r coginio hefyd gan i ni ddysgu ryseitiau newydd.' Plentyn/person ifanc, arolwg ar ôl y Treial

7.8 Roedd y lleoliadau fu'n cymryd rhan yn cynnig amrywiaeth o gymorth academaidd fel rhan o'r Treial, gan gynnwys sgiliau rhifedd, digidol a llythrennedd a rhywfaint o gymorth gwaith cartref. Fodd bynnag, yn anaml yr oedd plant a phobl ifanc yn sôn am weithgareddau'n ymwneud â sgiliau academaidd, o bosib oherwydd nad oeddent yn sylwi bod sgiliau academaidd craidd wedi'u hymgorffori mewn rhai o'r gweithgareddau yr oeddent yn eu gwneud. Nododd rhai bod yn rhaid iddynt ddewis weithiau rhwng gwneud gweithgaredd academaidd a gwneud gweithgaredd 'cyfoethogi' oherwydd prinder lleoedd ar gyfer rhai o'r gweithgareddau.

Amser a dreuliwyd mewn gweithgareddau'r Treial

- 7.9 Soniodd cyfranogwyr y grŵp ffocws fod gweithgareddau'r Treial yn cael eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Iau, a bod rhai'n cynnal gweithgaredd ar ddydd Gwener hefyd. Mynychodd bron i ddau draean o blant a phobl ifanc (61 y cant; Ffigur 5) y Treial rhwng tri i bum diwrnod yr wythnos, yn ystod wythnos arferol. Mân reswm dros beidio â mynychu a grybwyllwyd yng ngrwpiau ffocws y cyfranogwyr oedd ymrwymiadau eraill (e.e., mynd i glwb/gweithgaredd allanol gwahanol). Soniodd rhiant a gymerodd ran hefyd yn ystod cyfweiliad na allai eu plentyn fynychu ei weithgaredd Treial olaf oherwydd salwch.
- 7.10 Roedd amser a dreuliwyd yng ngweithgareddau'r Treial yn amrywio yn seiliedig ar y math o weithgaredd. Soniodd cyfranogwyr y grŵp ffocws fod llawer o weithgareddau wedi para 45 munud i awr, ond eto fe barodd gweithgareddau eraill yn hirach, gan gynnwys mynd i'r sinema.

Ffigur 5: Nifer o ddyddiau y cymerodd plant/pobl ifanc ran yn y Treial yn ystod wythnos arferol




Ffynhonnell: Arolwg ar ôl y Treial. Sylfaen n: 329.

Profiadau o weithgareddau'r Treial

- 7.11 Dywedodd y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg ar ôl y Treial (91 y cant) iddynt **fwynhau'r gweithgareddau** (n=306). Mae data gan y

grwpiau ffocws hefyd yn cefnogi hyn gan i blant a phobl ifanc grybwyll eu bod wedi cael hwyl.

Ffigur 6: Mwynhad plant a phobl ifanc o'r Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol



Ffynhonnell: Arolwg ar ôl y Treial. Sylfaen n: 306.

- 7.12 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn yr arolwg ar ôl y Treial beth oedden nhw'n ei fwynhau fwyaf am weithgareddau'r Treial. Prif bethau a grybwyllwyd oedd chwarae chwaraeon (e.e., pêl-droed a phêl-rwyd), gwneud gweithgareddau hwyliog a gafaelgar fel drama, celf, coginio a serameg, treulio amser gyda ffrindiau a dysgu pethau newydd.
- 7.13 At hynny, soniodd plant a phobl ifanc yn ystod y grwpiau ffocws eu bod wedi'u cyflwyno i **weithgareddau newydd** a datblygu **sgiliau newydd** trwy'r Treial. Soniodd rhai y byddent yn hoffi parhau i archwilio eu diddordebau newydd yn y dyfodol. Gwnaethant fwynhau'r agwedd hon ar y Treial gan iddi eu helpu i fagu hyder mewn sgîl newydd:
- 'Nes i fwynhau [coginio] lot achos nes i ddysgu sut i goginio a sut i wneud pethau'n iawn.' Plentyn/person ifanc
- 7.14 Roedd y plant a'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon hefyd wedi mwynhau hyn, yn enwedig y cyfle i fod yn egnïol yn gorfforol yn dilyn cyfnodau clo'r coronafeirws:

'Ar ôl COVID, [mi wnes i fwynhau] cael ymarfer corff a threulio awr ychwanegol yn yr ysgol yn cael llawer o hwyl gyda ffrindiau.' Plentyn/person ifanc, arolwg ar ôl y Treial

Barn ar staff lleoliadau/darparwyr fu'n rhedeg y gweithgareddau

Cyflwynwyd y gweithgareddau Treial gan staff lleoliadau yn ogystal â darparwyr allanol. Dywedodd y plant a'r bobl ifanc eu bod yn mwynhau gwneud gweithgareddau gyda'u hathrawon/staff lleoliadau gan eu bod yn glên a chyfeillgar, ac yn sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael hwyl. Roedden nhw hefyd yn gwerthfawrogi'r bobl allanol oedd yn cyflwyno gweithgareddau gan eu bod yn gyfeillgar ac yn barod i helpu pryd bynnag yr oedden nhw'n wynebu heriau ac yn eu helpu i ddatblygu eu hyder yn y gweithgareddau. Soniodd y plant a'r bobl ifanc eu bod yn mwynhau dysgu gan bobl ag arbenigedd a gwybodaeth yn y gweithgareddau yr oeddent yn eu darparu.

'Roedd y bobl oedd yn trefnu [y gweithgareddau] yn gynnes a chroesawgar iawn i ni, ac roedden nhw'n helpu ni gyda phopeth.' Plentyn/person ifanc

Barn ar dreulio mwy o amser yn y lleoliad

- 7.15 Mae'r data gan grwpiau ffocws yn dangos yr oedd gan blant a phobl ifanc farn gymysg am dreulio mwy o amser yn eu lleoliad dysgu y tu allan i oriau ysgol arferol. I rai plant a phobl ifanc, doedd dim ots ganddyn nhw hyn o gwbl gan ei fod yn golygu llai o amser gartref gyda brodyr a chwiorydd neu fod gan eu rhieni/gofalwyr fwy o amser i wneud yr hyn roedden nhw eisiau. At hynny, roedd rhai plant a phobl ifanc yn cydnabod manteision posib gweithgareddau'r Treial, gan ddweud ei fod yn gyfle da i ddysgu wrth gael hwyl, treulio mwy o amser gyda ffrindiau a datblygu sgiliau newydd. Fodd bynnag, roedd rhai plant a phobl ifanc yn cael trafferth treulio mwy o amser yn eu lleoliad, gan ddweud eu bod yn teimlo wedi'u llethu, neu y bydden nhw'n llwglyd ac yn methu â chael unrhyw beth i'w fwyta nes iddyn nhw gyrraedd adref.

Argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol

- 7.16 Mae'r grwpiau ffocws yn dangos y byddai gan blant a phobl ifanc ddiddordeb mewn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, pe byddent yn cael y cyfle.

Ar y cyfan, fe ddisgrifion nhw eu profiadau fel rhai hynod gadarnhaol. Pan ofynnwyd sut y gellid gwella'r ddarpariaeth, soniodd ymatebwyr yr arolwg am fwy o weithgareddau awyr agored, yn enwedig chwaraeon, ac efallai hyd yn oed am fwy o amrywiaeth a'r cyfle i roi cynnig ar nifer cynyddol o weithgareddau.

- 7.17 Roedd plant a phobl ifanc hefyd o'r farn bod rhai o weithgareddau'r treial yn rhy fyr ac y byddai'n dda iddynt gael eu hymestyn 10 - 30 munud. Er enghraifft, soniodd rhai plant a phobl ifanc mewn grŵp ffocws fod y gweithgareddau'n gorffen yn rhy gynnar, ac roedd yn teimlo fel eu bod newydd ddechrau. Yn ogystal, awgrymodd y rhai na chafodd fwyd a diod fel rhan o'r sesiynau y dylid ei ddarparu.
- 7.18 Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn cael eu cyflwyno yn uniaith Saesneg, gyda rhai'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd un lleoliad eu bod yn cynnig 'clwb Cymraeg' ochr yn ochr â'r gweithgareddau eraill. Byddai nifer fach o gyfranogwyr y grŵp ffocws wedi hoffi cael mwy o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond byddai'n well gan rai o'r rhai a aeth i weithgareddau dwyieithog pe bai'r ddarpariaeth wedi'i chynnig yn Saesneg yn unig.

Barn rhieni/gofalwr

- 7.19 Roedd rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial yn **bositif iawn am y cyfle** i'w plant gymryd rhan. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau am ddim ac y gallai eu plant ddewis beth roedden nhw eisiau ei wneud. Gwnaethant grybwyll hefyd fod y Treial yn darparu cyfle i'w plant roi cynnig ar weithgareddau na fyddent wedi gallu eu gwneud fel arall, yn bennaf oherwydd rhwystrau ariannol.
- 7.20 Roedd rhai rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY yn arbennig o falch bod y gweithgareddau ar gael i'w plant, gan nodi y byddent yn cynnig cyfle da iddynt gymdeithasu ag eraill a gwneud rhywbeth y maent yn ei fwynhau.

'Oni bai bod gennych chi blentyn neu'n adnabod rhywun sydd ag anghenion arbennig, dydych chi ddim yn sylweddoli faint mae plentyn ag anghenion arbennig yn cael ei adael allan. Mae'r gweithgareddau ar ôl ysgol hyn yn rhoi cyfle i blant ag anghenion arbennig, i rieni/gofalwyr sydd methu fforddio mynd â'u


plant i lefydd, i blant sy'n ofalwyr ifanc - mae'n gyfle i bob plentyn gymryd rhan os ydyn nhw eisiau, heb unrhyw gost ychwanegol.' Rhieni/gofalwyr

- 7.21 Gwrthododd nifer fach o ddysgwyr y cynigiwyd cyfle iddynt gymryd rhan yn y Treial wneud hynny. Y rhesymau am hyn oedd i ddysgwyr feddwl na fyddent yn mwynhau'r gweithgareddau, a rhieni/gofalwyr yn teimlo bod gweithgareddau ychwanegol yn rhoi pwysau di-angen ar blant a phobl ifanc, na ddylent orfod aros yn eu lleoliad y tu hwnt i oriau ysgol arferol.
- 7.22 Dywedodd rhieni y cyfwelwyd â hwy y **byddent yn hoffi i'r Treial gael ei ymestyn** er mwyn i'w plant barhau i ddysgu mewn ffordd hwyliog ac archwilio diddordebau newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i rieni/gofalwyr sy'n methu fforddio i'w plant fynychu clybiau y tu allan i'r ysgol.
- 'Dw i'n meddwl ei fod wedi rhoi cymaint o gyfleoedd rhwng gwneud pethau gwahanol na fydden nhw'n eu gwneud fel arfer. Byddwn i wrth fy modd yn ei weld yn mynd ymhellach.' Rhieni/gofalwyr
- 7.23 Adleisiodd ymatebion i'r arolwg rhieni/gofalwr y canfyddiadau hyn, gyda'r mwyafrif helaeth (91 y cant) yn dweud y byddai ganddynt ddiddordeb i'w plentyn/plant barhau i fynychu sesiynau cyfoethogi (n=124). Pe bai'r sesiynau'n cael eu darparu yn y tymor hwy, byddai'r mwyafrif helaeth o rieni/gofalwyr (94 y cant) yn hoffi i'r gweithgareddau gael eu cyflwyno ar ôl ysgol (o'i gymharu â 10% a ddywedodd y byddent yn hoffi sesiynau cyn yr ysgol; n=115).⁸ Rhannwyd rhieni/gofalwyr yn gyfartal rhwng dymuno gweithgareddau bob diwrnod ysgol (45 y cant) a 1-2 waith yr wythnos (47 y cant; n=115)⁹.
- 7.24 Pan ofynnwyd iddynt ystyried beth fyddai'n dylanwadu ar eu penderfyniad i'w plentyn fynychu gweithgareddau cyfoethogi pellach yn y dyfodol, nododd rhieni/gofalwyr a arolygwyd y math o weithgareddau a gynigir (92 y cant), amseriad y gweithgareddau (85 y cant) a hyd gweithgareddau (66 y cant) fel ffactorau allweddol, yn ogystal â ffactorau eraill megis yr ystod o weithgareddau a gynigir ac a fyddai cludiant yn cael ei ddarparu ai beidio (n=117).

⁸ Noder bod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un opsiwn.

⁹ Dewisodd 2 y cant pellach o'r ymatebwyr 'unwaith y mis' a dywedodd 6 y cant nad oedden nhw'n gwybod.

Ffigur 7: Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad rhieni/gofalwyr i'w plant fynychu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol yn y tymor hir



Ffynhonnell: Arolwg rhieni/gofalwyr. Sylfaen n: 117-22.

Argymhellion rhieni ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol

- 7.25 Fel y nodwyd eisoes, roedd rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn hapus iawn gyda gweithgareddau'r Treial a'r cyfleoedd a gynigiwyd i'w plant. O ganlyniad, awgrym allweddol y gwnaethon nhw sôn amdano oedd cadw'r ddarpariaeth hon i fynd gan iddynt weld bod 10 wythnos yn rhy fyr i greu buddion tymor hir i'w plant. Awgrymodd rhai rhieni/gofalwyr hefyd ymestyn y cyfle i fwy o blant/pobl ifanc ar draws grwpiau blwyddyn gwahanol, nid y plant a phobl ifanc hynny sydd mewn blynyddoedd 'pontio' yn unig.
- 7.26 Awgrymiadau eraill oedd gwneud mwy o ymdrech i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc ag ADY a'u hannog i gymryd rhan, a gwella cyfathrebu â rhieni/gofalwyr ynglŷn â'r ddarpariaeth. Roedd hyn yn cynnwys rhoi mwy o wybodaeth am beth yw'r gwahanol weithgareddau a beth maen nhw'n ei gynnwys, amserlenni, gan gynnwys pryd mae'r gweithgareddau'n dechrau ac yn gorffen, a phryd y dylai rhieni/gofalwyr godi eu plant. At hynny, awgrymodd rhai rhieni/gofalwyr y dylai amseriad y gweithgareddau fod yn gyson drwy gydol y cyfnod darparu.

7.27 Yn olaf, argymhellodd rhai rhieni/gofalwyr y dylai plant a phobl ifanc helpu i ddiffinio a chynllunio'r gweithgareddau a gynigir, er mwyn cynyddu cyfranogiad a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymrwmo i'r rhaglen. Roedd rhai'n awgrymu defnyddio 'blwch awgrymiadau' i gywain syniadau plant a phobl ifanc.

8. Deilliannau

8.1 Mae'r adran hon yn crynhoi deilliannau a manteision hunan-adroddedig y Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol i ddysgwyr, lleoliadau a staff lleoliadau, rhieni/gofalwyr, a darparwyr. Mae'n dwyn ynghyd ddata o gyfweiliadau â gwahanol grwpiau ac arolygon rhanddeiliaid gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr.

Deilliannau i ddysgwyr

8.2 Adroddodd dysgwyr amrywiaeth eang o ddeilliannau. Roedd y themâu mwyaf cyffredin a godwyd yn ystod grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc yn cynnwys:

- Cymdeithasu â chyfoedion a gwella lles;
- Datblygu sgiliau newydd a bod yn egniol yn gorfforol;
- Gwelliannau mewn ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth.

8.3 Mae'r adran hon hefyd yn ystyried deilliannau i ddysgwyr wrth ddefnyddio a datblygu sgiliau iaith Gymraeg.

Cymdeithasu a lles

8.4 Mae'r dwy flynedd flaenorol wedi gweld plant a phobl ifanc yn destun cyfnodau hir o gyfyngiadau, unigedd a diffyg cyfleoedd y tu allan i'r cartref oherwydd pandemig y coronafeirws. Ar ddechrau'r Treial dywedodd bron i hanner yr holl gyfranogwyr a holwyd (48 y cant) iddynt deimlo'n llai abl i gymysgu â ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau na chyn y pandemig (n=681).

8.5 Mae data o'r cyfweiliadau a'r arolygon yn dangos bod y Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol wedi galluogi lleoliadau i ddechrau mynd i'r afael ag effeithiau negyddol cyfyngiadau'r coronafeirws ar allu plant i gymysgu â ffrindiau y tu allan i'r ysgol ac ar yr un pryd cymryd rhan mewn gweithgareddau llawn hwyl, a fyddai'n cael effeithiau cadarnhaol ehangach.

'Mewn gwirionedd roedd yn ymwneud â chael plant yn ôl i ryngweithio cymdeithasol gyda'u cyfoedion. Ac roedden ni'n gwybod petaem yn rhoi lles yng nghanol y peth a gwneud yn siŵr y gofali'r am eu lles a'u bod yn barod i ddysgu,


yna mewn gwirionedd byddai hynny'n cael sgil-effaith ar y diwrnod ysgol.'

Arweinydd lleoliad yn y treial

- 8.6 Roedd cyfran fawr o ddysgwyr a ymatebodd i'r arolwg ar ôl y Treial (84 y cant) yn cytuno bod y sesiynau wedi eu helpu i gymdeithasu â ffrindiau (n=293). At hynny, awgryma cymharu data o arolygon dysgwyr cyn ac ar ôl y Treial fod maint o amser y treuliodd plant a phobl ifanc yn cymysgu â'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol wedi cynyddu dros gyfnod y Treial - gwelodd 51 y cant ffrindiau o leiaf ddwywaith yr wythnos cyn y Treial, o'i gymharu â 62 y cant wedyn. Er y gallai ffactorau eraill, fel yr adeg o'r flwyddyn/ tywydd, hefyd fod wedi chwarae rôl ym maint yr amser y treuliodd pobl ifanc gyda ffrindiau.
- 8.7 Amlygodd grwpiau ffocws gyda dysgwyr effeithiau buddiol y sesiynau cyfoethogi ar ryngweithio pobl ifanc â chyfoedion hefyd, yn enwedig yn ystod y gaeaf pan y byddent wedi bod gartref fel arall:
- 'Fel arfer, oherwydd misoedd y gaeaf, doeddwn i ddim rili'n gwneud llawer. Alla i ddim mynd allan gyda fy ffrindiau achos byddai'n rhy oer a glawog. Ond pan wnes i Forces Fitness¹⁰ gyda fy ffrindiau, roedd yn fy nghadw i'n fwy egnïol mewn gwirionedd yn lle dim ond aros gartref.' Plentyn/person ifanc
- 8.8 Teimlwyd bod mwynhad a chael hwyl yn ddeilliannau pwysig o'r sesiynau cyfoethogi gan rieni/gofalwyr a phlant/pobl ifanc fel ei gilydd: Roedd 96 y cant o rieni/gofalwyr y cyfwelwyd â hwy yn teimlo bod eu plentyn wedi mwynhau cymryd rhan (n=157), a chytunodd mwyafrif mawr o bobl ifanc (91 y cant, n=297) a rhieni/gofalwyr (94 y cant, n=154) fod y cyfranogwyr wedi cael hwyl.
- 8.9 Amlygodd rhieni/gofalwyr, athrawon ac arweinwyr lleoliadau welliannau mewn **hapusrwydd a lles** pobl ifanc gydag 89 y cant o rieni/gofalwyr a arolygwyd yn dweud bod gweithgareddau Treial wedi helpu eu plentyn i fod yn hapus (n=157).
- 8.10 Mae data o'r arolwg rhieni/gofalwr yn dangos bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn teimlo bod y Treial wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plant mewn meysydd lluosog, fel y dangosir yn y ffigur isod.

¹⁰ Mae Forces Fitness yn darparu gweithgareddau chwaraeon a lles i ysgolion a sefydliadau eraill. Arweinir y gweithgareddau gan gyn-aelodau'r lluoedd arfog.

Ffigur 8: Barn rhieni/gofalwyr o ddeilliannau'r Treial i gyfranogwyr



Ffynhonnell: Arolwg rhieni. Sylfaen n: 157-154.

- 8.11 Roedd plant/pobl ifanc ac athrawon yn teimlo bod cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi datblygu **hyder a hunan-barch** dysgwyr.

'Cyn y 10 wythnos doeddwn i ddim yn or-hoff o gelf. Erbyn hyn, dwi'n gallu tynnu llun anifeiliaid a dwi'n eitha' da.' Plentyn/person ifanc

- 8.12 Roedd adroddiadau gan arweinwyr lleoliadau'n awgrymu bod effeithiau cadarnhaol gwell hyder a gwydnwch yn ymestyn i feysydd eraill o addysg a bywydau'r plant y tu allan i'r ysgol.

'Yr hyn rydyn ni wedi'i weld yw, o ystyried COVID a phopeth sydd wedi digwydd a'r holl newidiadau, nhw [dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y Treial] yw'r rhai mwyaf sefydlog o ran eu hymddygiad, eu hagweddau at ddysgu, eu parodrwydd i ymwneud â phethau sy'n anodd.' Arweinydd lleoliad yn y treial

Sgiliau newydd a gweithgarwch corfforol

- 8.13 Cytunodd y mwyafrif o blant/pobl ifanc (87 y cant) a ymatebodd i'r arolwg ar ôl y Treial fod y sesiynau cyfoethogi ychwanegol wedi eu galluogi i **roi cynnig ar weithgareddau newydd** (n=297), tra bod 85 y cant yn teimlo eu bod wedi cael cyfle i **ddysgu rhywbeth newydd** (n=297).
- 8.14 Arweiniodd y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd at rai pobl ifanc yn ymchwilio i ddiddordebau ac ymgymryd â hobiau, yr oeddent yn disgwyl parhau â nhw y tu hwnt i gyfnod y Treial. Er enghraifft, amlygodd rhieni/gofalwyr weithgareddau fel

ffotograffiaeth, drymio a golff, rhywbeth yr oedd eu plant wedi'u mwynhau, efallai na fyddent wedi'u profi fel arall.

'Rwy'n credu yr oedd o fudd iddo. Mae e wedi cael amser i wir gymryd rhan mewn pethau mae'n debyg na fyddai wedi'u gwneud [fel arall].' Rhieni/gofalwyr

- 8.15 Nododd un rhiant/gofalwr ei fod wedi cofrestru ei blentyn mewn gwersi golff preifat o ganlyniad i'r sesiynau. Roedd dysgwr arall wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd crochenwaith fel rhan o'r sesiynau cyfoethogi ac ers hynny wedi sicrhau lle mewn ysgol haf celf. Ymysg eraill, soniodd plant am weithgareddau fel graffiti, coginio, gymnasteg, dawns a llinellau sip:

'Ro'n i wir eisiau dysgu sgiliau newydd gan nad ydw i erioed wedi gwneud unrhyw graffiti a nawr mae ar fy wal oherwydd, fel y gwnes i lun i roi ar fy wal.'
Plentyn/person ifanc

- 8.16 Yn ogystal, rhoddodd y sesiynau gyfle i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gydag 84 y cant o ddysgwyr a holwyd yn dweud bod y sesiynau cyfoethogi ychwanegol wedi eu helpu i fod yn fwy egnïol (n=293).

'Yn lle mynd adref a chwarae ar eich iPad neu ffôn, rydych chi'n gwneud rhywbeth egnïol mewn gwirionedd.' Plentyn/person ifanc

- 8.17 Ar ben hynny, bu i'r sesiynau feithrin ymdeimlad o **antur ac archwilio**. Roedd y gweithgareddau'n cael eu gweld gan staff lleoliadau fel rhai sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr fynd allan ac archwilio'r byd mewn gofod diogel, rhywbeth y mae'n debygol na fyddai gan bobl ifanc fel arall.

'Doedden nhw ddim yn eich rhoi chi ar y llinell sip i gael hwyl yn unig, roedden nhw'n eich dysgu chi sut roedd yn gweithio a sut i roi'r harneisiau ymlaen a sut i dynnu nhw. Os oedd gennych ofn mynd ar y llinell sip, byddent yn eich annog i fynd a byddent yn gwneud i chi chwerthin.' – Plentyn/person ifanc

Gwelliannau mewn ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ysgol

- 8.18 Adroddodd staff lleoliadau ddeilliannau cadarnhaol yn gysylltiedig ag ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ysgol. Dywedodd arweinwyr a staff lleoliadau'n gyson bod plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y Treial yn fwy tebygol o fynychu eu lleoliad er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y gweithgareddau ar ôl ysgol.

'Mae'r holl bethau yma'n cyfoethogi eu lles, felly maen nhw'n hapusach wrth ddod i'r ysgol. Rydyn ni wedi sylwi yr oedd 'na gwpl o blant yr oedd eu bresenoldeb yn wael iawn. Mae eu presenoldeb bellach yn well o lawer oherwydd, chi'n gwybod, dydyn nhw ddim wedi colli unrhyw un o'u clybiau. Mae gennym ni un bachgen bach yr oedd ei bresenoldeb yn warthus. Mae e dal yn hwyr yn aml iawn, ond bydd yn dod i mewn i fynd i'r clybiau. Mae fe'n gallu rheoli hynny.' Arweinydd lleoliad yn y treial

- 8.19 Dywedodd staff lleoliadau ac arweinwyr lleoliadau'r Treial fod y Treial wedi helpu dysgwyr i ddod o hyd i ddiddordebau newydd, sydd wedi'u hysgogi i barhau i fynychu sesiynau'r Treial a'u helpu i ymddiddori mwy a chymryd rhan mewn gwersi yn ystod y diwrnod ysgol.


'Mae gennym un plentyn yn arbennig, [...] wedi'i ddadrithio'n llwyr yn yr ysgol. Erbyn hyn maen nhw'n dod i'r ysgol bob dydd ac yn mynychu'r clybiau bob nos. Mae eu sgiliau cyfathrebu nhw nawr yn dda iawn, iawn. Doedden nhw ddim yn dweud unrhyw beth yn aml, yn dod allan o ystafelloedd dosbarth ac eistedd mewn coridor a gwrthod gwneud unrhyw beth. Nawr maen nhw'n cymryd rhan ac yn dysgu.' Arweinydd lleoliad yn y treial

- 8.20 Yn achos un lleoliad, roedd hyn yn cynnwys adroddiadau gan staff lleoliadau (yn seiliedig ar sgysiau anffurfiol gyda'r heddlu lleol) bod y Treial wedi arwain at ostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned, gan fod pobl ifanc yn treulio llai o amser ar y strydoedd.

'Oherwydd yr ardal, mae cryn dipyn o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymladd - mae wastad heddlu yn yr ysgol. Nid yw'r darparwr ond yn mynd i mewn ac yn gwneud yr hunanamddiffyn, mae'n siarad â nhw [dysgwyr] am sut y gall penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud ddylanwadu ar eu bywydau cyfan. Nawr mae'r plant yn dweud bod ganddyn nhw lais yr hyfforddwr yn eu pennau pan fyddan nhw ar fin dechrau ymladd gan ddweud, 'cerdda i ffwrdd, cerdda i ffwrdd'.

- 8.21 Dywedodd rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd bod y sesiynau wedi helpu eu plant i deimlo'n bositif am yr ysgol (83 y cant, n=151) ac wedi helpu gyda'u dysgu (66 y cant, n=156).

Ffigur 9: Barn rhieni ar sut roedd y Treial yn cefnogi plant



Ffynhonnell: Arolwg rhieni. Sylfaen n: 157-151.

8.22 **Fe wnaeth presenoldeb ac ymgysylltu wella** oherwydd bod dysgwyr eisiau bod yn eu lleoliad i gymryd rhan yn y sesiynau cyfoethogi, gan olygu hefyd eu bod yn fwy tebygol o fod yn y dosbarth. Yn ogystal â hyn, nododd staff a rhieni/gofalwyr newid mewn agweddau, gyda phlant/pobl ifanc yn awyddus i aros yn eu lleoliad i gymryd rhan mewn clybiau:

'Fel arfer maen nhw'n ysu am gael gadael ar ddiwedd y dydd, nawr dydyn nhw ddim. Mae hynny'n dweud popeth sydd angen i chi ei wybod, on'd ydi? Cyn i ni gael y clybiau hyn i gyd, roedden nhw fel, 'ydy hi'n amser mynd adre eto?'
Arweinydd lleoliad yn y treial

'Nid yw fy mhientyn erioed wedi bod ag awydd cymryd rhan yn yr ysgol ac mae wedi casáu mynychu, ers y gweithgareddau ychwanegol y mae hi'n hapusach o lawer wrth fynychu'r ysgol ac yn gyffrous am yr hyn y bydd hi'n ei wneud.'
Rhieni/gofalwyr

8.23 Er mai anaml y byddai sgiliau craidd yn ganolog i weithgareddau oedd ar gael o fewn sesiynau cyfoethogi, roedd lleoliadau'n gwneud ymdrechion i gynnwys elfennau o **adeiladu sgiliau craidd** o fewn sesiynau gwahanol. Er enghraifft, roedd clwb adrodd storïau'n cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau llythrennedd, gweithgareddau coginio i ddeall pwysau a mesurau, a gweithgareddau ar-lein i wella sgiliau digidol. Trwy ganolbwyntio ymdrechion ar les a sgiliau cymdeithasol

dysgwyr, nododd staff y gallent effeithio ar ansawdd y dysgu sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth ac ar yr un pryd, dod o hyd i ffyrdd o ymwreiddio dysgu. Ar yr un pryd, roedden nhw'n teimlo bod y gweithgareddau'n helpu i ddatblygu sgiliau meddal fel adeiladu tîm, sgiliau cyfathrebu ac arwain.

Cyfleoedd i siarad Cymraeg

- 8.24 Roedd y sesiynau cyfoethogi ychwanegol yn cynnig cyfleoedd i rai dysgwyr gymdeithasu ag eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hynny, awgryma'r canfyddiadau y bu cyfleoedd yn fwy cyfyngedig na'r hyn y byddai lleoliadau wedi hoffi ei weld, yn rhannol o ganlyniad i anawsterau cael mynediad at ddarparwyr a allai gyflwyno gweithgareddau dwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd un lleoliad eu bod yn cynnig clwb Cymraeg, eraill eu bod yn cynnig rhai gweithgareddau yn Gymraeg a/neu yn ddwyieithog.
- 8.25 Dangosa canfyddiadau'r arolwg i tua chwarter o rieni/gofalwyr (22 y cant) nodi bod y sesiynau cyfoethogi wedi cynnig mwy o gyfleoedd i'w plentyn siarad Cymraeg (n=158), tra y cytunodd traean o ddysgwyr (34 y cant) fod y sesiynau cyfoethogi wedi arwain at welliant yn eu sgiliau Cymraeg (n=287).

Deilliannau i leoliadau/ staff lleoliadau

- 8.26 Roedd deilliannau ar gyfer staff lleoliadau'n canolbwyntio'n bennaf ar y gallu i feithrin **perthynas â dysgwyr** ac am **gyfleoedd datblygu proffesiynol**. Roedd y sesiynau cyfoethogi yn galluogi staff i weithio gyda dysgwyr mewn cyd-destun gwahanol, a olygai fod dysgwyr yn eu gweld mewn ffordd wahanol ac yn caniatáu i athrawon a dysgwyr ddatblygu beth oedd arweinydd lleoliad yn cael ei ddiffinio fel '**cysylltiad gwell**', na fyddai wedi bod yn bosib mewn lleoliad mwy ffurfiol (h.y., yr ystafell ddosbarth).

'Mae'r plant yn gweld y staff mewn ffordd ychydig yn wahanol oherwydd, rydych chi'n gwybod nad ydych chi mewn ystafell ddosbarth, does gennych chi ddim yr un rôl yna. Maen nhw allan yn cael hwyl yn gwneud pethau, felly mae wedi adeiladu perthnasoedd. Brechwast yr Ysgol Goedwig, cael pryd o fwyd mawr fore Gwener, mae llawer o staff yn mynd draw ac mae hynny'n braf iawn i'r plant eu

gweld mewn lleoliad cymdeithasol bron. Mae wedi helpu gyda pherthnasoedd ac wedi rhoi profiadau newydd i'r plant' Arweinydd lleoliad yn y treial

8.27 Roedd rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd yn nodi'r gwahaniaeth yn y berthynas rhwng dysgwyr a staff lleoliadau, gyda 72 y cant yn nodi bod eu plant yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu hathrawon o ganlyniad i'r sesiynau cyfoethogi (n=156).

'Roeddem am ei gynnig i ddweud: 'mewn gwirionedd, dyma gyfle â thâl lle rydym yn eich gwerthfawrogi fel rhan o gymuned ein hysgol.' Arweinydd lleoliad yn y treial

8.28 Yn ogystal â'r manteision ariannol, roedd staff y lleoliad a'r coleg yn gallu **meithrin eu sgiliau** a'u profiad drwy weithio gyda charfan wahanol o ddysgwyr, o fewn cyddestunau gwahanol, a/neu gyda darparwyr allanol. Roedd hyn wedi eu dysgu sut i addasu eu harddulliau addysgu a chyfoethogi eu profiadau addysgu, yn ogystal ag adeiladu rhwydweithiau.

8.29 Roedd y manteision i staff, o ran meithrin perthynas (rhwng athrawon a dysgwyr, ac ymhlith athrawon), tâl ariannol a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwyr, hefyd o fudd i leoliadau. Yn yr un modd, cyfrannodd y deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, yn enwedig o ran presenoldeb, ymgysylltu ac ymddygiad at amgylchedd ysgol mwy cadarnhaol.

8.30 Dywedodd arweinwyr lleoliadau ac aelodau o staff hefyd fod y sesiynau cyfoethogi yn caniatáu lleoliadau i adeiladu '**ethos cymunedol**' gan gynnig ymdeimlad cliriach i staff o ddiddordebau dysgwyr a chyfle i greu cysylltiadau yn y gymuned.

8.31 Esboniodd arweinwyr lleoliadau'r Treial fod y cyllid yn galluogi lleoliadau i gryfhau eu perthynas bresennol â darparwyr y buont yn cydweithio â nhw o'r blaen ac roedd rhai yn gallu adeiladu partneriaethau gwerthfawr gyda darparwyr allanol newydd.

'Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn gan ein bod wedi sefydlu cysylltiad nawr ac fe allai gysylltu â dysgu ehangach mewn gwahanol feysydd.' Arweinydd lleoliad yn y treial

8.32 Roedd hefyd yn caniatáu i leoliadau adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol a'i gwella, gan gynnig ystod ehangach o weithgareddau a chlybiau i fwy o ddysgwyr. Roedd y

cyllid hefyd yn galluogi lleoliadau i ddod â darparwyr ag offer arbenigol i mewn, a phrynu offer (e.e. cyfarpar realiti rhithwir, drôns, gliniaduron, nwyddau coginio, offer chwaraeon ac electronig) i ddarparu gweithgareddau newydd ac arloesol i ddysgwyr yn ystod ac ar ôl diwedd y Treial. Yn ôl y lleoliadau, dyma un o brif fanteision tymor hir y cyllid, gan yr oedd yn caniatáu iddynt ymestyn y ddarpariaeth y tu hwnt i gyfnod y Treial mewn rhai achosion.

‘Felly o ganlyniad i hyn, dw i'n gwybod ar gyfer Codio a Drôns¹¹ er enghraifft, mae yna rai gliniaduron oedd sy'n arbennig o addas ar gyfer hynny. Mae gan yr ysgol y gliniaduron hynny bellach. Mae ganddyn nhw'r pecynnau drôn a'r holl fathau yma o bethau, fel y gallan nhw barhau i ddefnyddio'r dyfeisiau hynny ar ôl cael ychydig o hyfforddiant.’ Arweinydd lleoliad yn y treial


Deilliannau i rieni/gofalwyr a theuluoedd

- 8.33 Amlygodd rhieni/gofalwyr (yn enwedig y rhai mewn gwaith) bwysigrwydd cael **lle diogel** i'w plant fod ar ôl yr ysgol, lle'r oedd modd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol. Mae'r rhieni/gofalwyr a'r arweinwyr lleoliadau hefyd wedi amlygu'r gwerth ar gyfer plant a phobl ifanc o gael lle i ffwrdd o'u rhieni/gofalwyr a chartref y teulu. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o werthfawr yng nghyd-destun effaith barhaus y coronafeirws ar amser a dreulwyd y tu allan i'r cartref a gweithgareddau allgyrsiol eraill y tu allan i'r Treial.

‘Gwnaethon ni ffeindio bod lot o'r rhieni yn dweud pethau rili positif [...], maen nhw fel maen nhw [eu plant] gyda ni tan hyn a hyn o amser achos maen nhw'n gwybod eu bod nhw'n saff.’ Arweinydd lleoliad yn y treial

¹¹ Sesiwn mewn un o'r lleoliadau a oedd yn cynnwys gwaith gyda drôns a chodio.

Ffigur 10: Deilliannau canfyddedig y Treial ar gyfer rhieni/gofalwyr



Ffynhonnell: Arolwg rhieni. Sylfaen n: 133-132. Gofynnwyd y cwestiwn arolwg canlynol i rieni/gofalwyr: Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gweithgareddau wedi eich helpu chi, neu aelodau eraill o'r teulu, i...? (Dewiswch un ateb ym mhob rhes)

8.34 Roedd cael plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y lleoliad hefyd **yn rhyddhau amser rhieni/gofalwyr**. Dywedodd rhieni a holwyd eu bod yn defnyddio'r amser ychwanegol hwn i'w hunain (dywedodd 65 y cant fod ganddynt amser personol ychwanegol), ar gyfer cyfrifoldebau gofalu (61 y cant), neu i weithio (47 y cant) (n=133).

'Dw i'n teimlo'n euog yn aml, achos dw i'n gweithio, ac mae'n rhaid iddo fe fod yn dawel pan dw i'n gweithio. Yn bendant, gwnaeth i mi deimlo'n well, yn lle eistedd yn dawel, ei fod yn cael awr o gael ei ddiddanu.' Rhieni/gofalwyr

'Fe roddodd rywffaint o le i mi anadlu am ychydig yn ychwanegol a chaniatáu i mi gymryd mwy o oriau ymlaen yn y gwaith.' Rhieni/gofalwyr, arolwg

8.35 Cafodd yr amser a lle ychwanegol hwn yr oedd gan rieni/gofalwyr drostynt eu hunain, ac yr oedd gan bobl ifanc gyda chyfoedion, effaith gadarnhaol ar berthnasoedd teuluol. Canfu bron i ddau draean o rieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg (60 y cant) fod y Treial wedi eu helpu i reoli eu hiechyd meddwl eu hunain (n=133).

8.36 Roedd pobl ifanc hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu'r hyn yr oedden nhw wedi'i ddysgu yn y sesiynau cyfoethogi gyda rhieni/gofalwyr a brodyr/chwiorydd, er enghraifft, gwneud rhai o'r ryseitiau a ddysgwyd yn ystod sesiynau coginio gyda'u teuluoedd. Soniodd rhieni/gofalwyr hefyd fod gweithgareddau'r Treial yn annog creu cwlwm rhwng brodyr a chwiorydd gan y byddai plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn dod adref ac yn rhannu'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu gyda'u brawd neu chwaer, neu mewn rhai achosion roedd brodyr a chwiorydd yn mynychu gweithgareddau'r Treial gyda'i gilydd yn cael cyfle i greu cwlwm.

'Byddai fy merch yn dangos i'w brawd iau rai o'r pethau wnaeth hi, mae'n braf gweld y ddau ohonyn nhw'n mwynhau cwmni ei gilydd heb ddyfais.'

Rhieni/gofalwyr, arolwg

8.37 Pwysleisiodd cyfranogwyr ymchwil (yn enwedig rhieni/gofalwyr eu hunain) bwysigrwydd y ffaith bod y gweithgareddau **am ddim ar y pwynt mynediad**. Roedd hynny'n golygu bod plant a phobl ifanc a allai fod wedi cael eu gwahardd o weithgareddau fel arfer oherwydd rhesymau ariannol yn gallu cymryd rhan. Roedd hyn yn galluogi i bob dysgwr fwynhau manteision y rhaglen, waeth beth fo gallu'u rhieni/gofalwyr i dalu.

'Roedd y rhieni'n dweud nad oedd y plant wir yn gwneud unrhyw beth ar ôl yr ysgol cyn hynny. Chi'n gwybod, dydy ein plant ni ddim yn mynd i fath o glybiau rhaid talu amdano na dim byd felly. [...] profiad newydd oedd e, ac roedd y plant yn dod adre, chi'n gwybod, yn byrlymu o sut oedden nhw'n gorffen eu dydd.'

Arweinydd lleoliad yn y treial

8.38 Roedd staff lleoliadau'n teimlo bod gweithgareddau cyfoethogi yn gwneud bywyd yn haws i rieni/gofalwyr ar adeg anodd yn dilyn pandemig y coronafeirws ac yn **gwella'r berthynas rhwng rhieni/gofalwyr a'r lleoliad**. Atgyfnerthir hyn gan ganfyddiadau'r arolwg rhieni/gofalwyr, gydag 89 y cant o rieni/gofalwyr yn cytuno bod y Treial yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am lleoliad eu plentyn (n=132). Roedd y gweithgareddau hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i rieni/gofalwyr ymgysylltu â'r lleoliad, er enghraifft, drwy berfformiadau a gweithgareddau eraill lle gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i mewn i'r adeilad.

Deilliannau i ddarparwyr

- 8.39 Roedd y sesiynau cyfoethogi yn caniatáu i leoliadau gynnal y berthynas bresennol, ac mewn rhai achosion, adeiladu rhai newydd gyda darparwyr allanol. Croesawodd cyfranogwyr ymchwil (o leoliadau a darparwyr) gyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd, ac i ehangu'r ddarpariaeth o ran y mathau o weithgareddau oedd ar gael, a nifer y plant a phobl ifanc fu'n cymryd rhan. Roedd ehangu'n golygu bod darparwyr yn gallu cyflwyno carfan newydd o blant a phobl ifanc i weithgareddau, a byddai rhai ohonynt yn parhau i ymgysylltu ar ôl y Treial. Roedd lleoliadau'n gallu cyfeirio darparwyr roedden nhw wedi adeiladu perthynas â nhw dros gyfnod y Treial i grŵp ehangach o blant.
- 8.40 Un o brif fanteision y sesiynau cyfoethogi i ddarparwyr oedd tâl ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun heriol darpariaeth a oedd wedi arafu'n fawr neu stopio yn ystod y pandemig. Croesawodd darparwyr y gwaith ychwanegol a'r sicrwydd ariannol a gynigiwyd, yn y tymor canolig o leiaf. At hynny, teimlwyd bod defnyddio darparwyr lleol yn cynnig hwb mawr ei angen i'r economi. Fodd bynnag, bu pryderon y gallai'r buddion positif ond gael eu cynnal cyn belled â bod cyllid ar gael, gan adael darparwyr a'r economi leol yn agored i newidiadau yn y dyfodol.

9. Canfyddiadau Allweddol

- 9.1 Cymerodd un deg pedwar o leoliadau ran yn y Treial. Roedd hyn yn ystod ganol y nifer y gallai'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y Treial ei gefnogi.. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gobeithio y byddai modd i un neu ddau leoliad arall gymryd rhan ond yn cydnabod bod lleoliadau o dan bwysau mawr oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys pwysau ar leoliadau a staff, pandemig y coronafeirws parhaus ac amser byr i gynllunio, sefydlu a lansio gweithgareddau.
- 9.2 Y prif resymau dros leoliadau a ddewisodd beidio â chymryd rhan oedd arweinwyr ALI nad oeddent wedi rhannu gwybodaeth am y Treial gyda nhw er mwyn osgoi rhoi gormod o bwysau arnynt, gan fod pwysau pandemig y coronafeirws eisoes yn effeithio ar gapasiti staff.
- 9.3 Llenwodd y lleoliadau a gymerodd ran yn y treial MoDd ac yna cawsant wybod gan Lywodraeth Cymru eu bod wedi'u dewis i dderbyn cyllid. Nododd lleoliadau fod y broses ymgeisio yn ddiffwdan. Cefnogwyd y sefydliadau a gymerodd ran gan Gynghorydd y Treial drwy gydol cynllunio a gweithredu.
- 9.4 Ar gyfer rhai lleoliadau, roedd caniatáu i ddysgwyr ddweud eu dweud o ran pa weithgareddau fyddai'n cael eu cynnwys yn y Treial yn allweddol, gan y teimlwyd ei bod yn bwysig ennyn diddordeb dysgwyr. Fodd bynnag, oherwydd yr amserlen fer, ni fu'n bosib ymgynghori â dysgwyr yn gyson ar draws pob lleoliad na chynnwys grŵp mawr neu gynrychioliadol o ddysgwyr pan gynhaliwyd ymgynghoriadau.
- 9.5 Roedd arweinwyr lleoliadau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawsant gan Gynghorydd y Treial, yn enwedig i adnabod a recriwtio darparwyr allanol. Roedd y lleoliadau a gymerodd ran yn cael y canllawiau'n glir ac yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a fu'n caniatáu iddynt deilwra darpariaeth i'w hanghenion. Fodd bynnag, byddent wedi elwa o amser paratoi hirach i gynllunio darpariaeth a datblygu partneriaethau gyda darparwyr newydd.
- 9.6 Un o'r prif gymhellion i leoliadau gymryd rhan yn y Treial oedd rhoi profiadau a chyfleoedd i ddysgwyr na fyddent fel arall wedi cael mynediad atynt, o ystyried cydestun anfantais gymdeithasol ac economaidd y lleoliadau fu'n cymryd rhan. Ymhlith y cymhellion eraill oedd gwella canfyddiadau a phrofiadau plant/pobl ifanc

o'r ysgol, ail-ennyn diddordeb dysgwyr yn yr ysgol ac annog presenoldeb, a chreu cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu â'u cyfoedion.

- 9.7 Roedd pob lleoliad yn targedu set benodol o grwpiau blwyddyn, fel arfer blynyddoedd pontio (e.e. blwyddyn 5 a 5), a chynigiwyd y gweithgareddau i bob plentyn/person ifanc o fewn y grŵp/grwpiau blwyddyn a ddewiswyd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd yn heriol gwneud darpariaeth yn gwbl gynhwysol ar gyfer plant/pobl ifanc ag ADY neu'r rhai mwyaf agored i niwed (e.e. y rhai â chyfrifoldebau gofalu). Roedd lleoliadau'n defnyddio cymysgedd o staff a darparwyr allanol i gynnal gweithgareddau'r Treial. Roedd rhai lleoliadau'n defnyddio darparwyr allanol yn bennaf, ac yn cynnig cyfle i staff ochr yn ochr â hyn, tra bod eraill yn dibynnu'n bennaf ar eu staff eu hunain i gyflwyno gweithgareddau, gan ategu hyn gyda darpariaeth fwy arbenigol gan ddarparwyr allanol.
- 9.8 Roedd lleoliadau'n gwerthfawrogi medru talu athrawon, yn ogystal â darparwyr allanol, am eu hamser yn cyflwyno gweithgareddau'r Treial. Fodd bynnag, byddent wedi elwa o gyllid i dalu am rai o elfennau gweinyddol/rheoli'r rhaglen, megis amser arweinydd y Treial.
- 9.9 Roedd lleoliadau'n gwerthfawrogi'n gryf yr hyblygrwydd a gynigir gan y Treial i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau yn dibynnu ar argaeledd lleol darparwyr/staff ac adnoddau a diddordebau ac anghenion penodol dysgwyr. Adlewyrchwyd hyn yn amrywiaeth y gweithgareddau, lleoliadau ac amseru'r gweithgareddau a gynigiwyd.
- 9.10 Y prif ffactorau galluogi wrth gyflwyno'r Treial oedd brwdfrydedd ac ymgysylltiad sefydliadau a gymerodd ran a'u perthynas fu'n bodoli eisoes gyda darparwyr allanol a fu'n galluogi nhw i ymsefydlu'n gyflym. Ymhlith y ffactorau fu'n galluogi cyfranogiad dysgwyr oedd y gallu i ddefnyddio rhan o'r cyllid i ddarparu cludiant a bwyd.
- 9.11 Cyflwynodd y Treial ystod eang iawn o weithgareddau, gan gynnwys nifer fawr o weithgareddau chwaraeon a chorfforol, gweithgareddau creadigol, gemau, gweithgareddau awyr agored, a theithiau. Roedd rhai lleoliadau hefyd yn cynnig cymorth academaidd i fodloni'r gofyniad y dylai 20 y cant o amser weddu i sgiliau academaidd craidd.

- 9.12 Roedd y lleoliadau'n rhoi'r cynnig i ddysgwyr ddewis pa weithgareddau roeddent am gymryd rhan ynddynt. Roedd rhai lleoliadau'n cynnig nifer o weithgareddau bob dydd i blant/pobl ifanc ddewis ohonynt, tra bo eraill yn disgwyl i ddysgwyr ymuno â gweithgareddau ar rai dyddiau ond nid pob un.
- 9.13 Rhedwyd y gweithgareddau'n bennaf gan ddefnyddio cyfleusterau'r lleoliadau, megis cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored, ardaloedd coedwig, caeau, ceginau, ystafelloedd celf ac ystafelloedd dosbarth. Soniodd rhai lleoliadau hefyd am ddefnyddio cyfleusterau lleol fel y ganolfan gymunedol a'r parc lleol. Ambell dro aeth dysgwyr ar deithiau oddi ar y safle, er enghraifft i'r sinema.
- 9.14 Gan amlaf roedd gweithgareddau yn digwydd yn syth ar ôl y diwrnod ysgol (e.e. 3-4 y prynhawn). Roedd rhai lleoliadau'n cyflwyno gweithgareddau am awr bob dydd, tra bod eraill yn darparu gweithgareddau hirach dri neu bedwar diwrnod yr wythnos.
- 9.15 Roedd cofrestru a phresenoldeb yn y Treial yn uchel yn gyson. Roedd rhai lleoliadau'n cynnig cymhellion i gymryd rhan i ddechrau (e.e. teithiau sinema) ond sylweddolwyd fel arfer nad oedd angen gwneud hyn gan fod plant a phobl ifanc eisiau cymryd rhan.
- 9.16 Y prif resymau y bu'r Treial yn llwyddiannus ar y cyfan oedd ymgysylltiad staff a pharodrwydd i ddarparu gweithgareddau, a gallu rhieni/gofalwyr i godi plant ar ôl y gweithgareddau. Y rhwystr allweddol fu'n cadw plant/pobl ifanc rhag mynychu oedd diffyg cludiant adref ar ôl y gweithgareddau, neu anallu rhieni i ddarparu ar gyfer gwahanol amseroedd codi nifer o blant. Fe wnaeth rhai lleoliadau oresgyn hyn drwy ddarparu cludiant.
- 9.17 Mynegodd staff lleoliadau ac arweinwyr lleoliadau'r Treial bryderon y byddai darparu gweithgareddau cyfoethogi dros nifer cyfyngedig o wythnosau yn codi disgwyliadau ymhlith plant/pobl ifanc a theuluoedd na fyddent yn cael eu bodloni yn y tymor hir, a allai arwain at siom. Fodd bynnag, o ystyried llwyddiant y gweithgareddau ymhlith dysgwyr, roedd llawer o leoliadau wedi dechrau archwilio cyfleoedd i ymestyn y gweithgareddau y tu hwnt i gyfnod y Treial.
- 9.18 Nododd arweinwyr lleoliadau'r Treial a staff lleoliadau prif rwystrau i barhau i ddarparu'r Treial fel cyfyngiadau ariannol, capasiti staff cyfyngedig, cludiant a

gostyngiad posib mewn ymgysylltu â dysgwyr dros amser. Fe wnaethant hefyd nodi ffactorau allweddol a allai eu galluogi i barhau i gyflwyno: cyllid, partneriaethau neu weithio mewn clwstwr gyda lleoliadau eraill, parhau i ddefnyddio'r cyfarpar a brynwyd gyda chyllid y Treial, cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr i sicrhau ymgysylltiad parhaus ac chyfranogiad dysgwyr hŷn wrth gyflwyno.

- 9.19 Hysbyswyd plant a phobl ifanc am weithgareddau'r Treial naill ai drwy eu rhieni/gofalwyr, a dderbyniodd gyfathrebiadau o'u lleoliad, neu'n uniongyrchol gan eu lleoliadau. Pan gawson nhw wybod am y Treial, roedden nhw'n gyffrous ac yn awyddus i gofrestru am y gweithgareddau.
- 9.20 Dywedodd plant a phobl ifanc y bydden nhw wedi treulio eu hamser gyda ffrindiau neu deulu os nad oedden nhw wedi cymryd rhan yn y Treial, yn chwarae gemau fideo neu'n gwyllo'r teledu, ac i raddau llai yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol neu greadigol arall.
- 9.21 Dywedodd y mwyafrif llethol (91 y cant) o blant a phobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg ôl-Dreial eu bod wedi cael hwyl, a dywedodd 84 y cant fod y Treial wedi eu helpu i gymdeithasu â'u cyfoedion. Dywedodd cyfranogwyr hefyd bod y Treial wedi eu cyflwyno i weithgareddau newydd a rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau newydd.
- 9.22 Roedd rhieni/gofalwyr plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y treial yn bositif iawn am y cyfle i'w plant gymryd rhan. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r ystod eang o weithgareddau am ddim ac y gallai eu plant ddewis beth roedden nhw eisiau ei wneud. Gwnaethant grybwyll hefyd fod y Treial yn darparu cyfle i'w plant roi cynnig ar weithgareddau na fyddent wedi gallu eu gwneud fel arall, yn bennaf oherwydd rhwystrau ariannol.
- 9.23 Y prif ddeilliannau i ddysgwyr a gymerodd ran yn y Treial oedd:
- Cymdeithasu â chyfoedion a gwella lles: dechreuodd y gweithgareddau wrthbwysu effeithiau negyddol cyfyngiadau'r coronafeirws. Cafodd dysgwyr gyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau, cael hwyl, a datblygu eu hyder a'u hunan-barch.

- Datblygu sgiliau newydd a bod yn egnïol yn gorfforol: roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau yn rhoi cyfle i ddysgwyr roi cynnig ar weithgareddau newydd a dysgu rhywbeth newydd, yn ogystal â bod yn fwy egnïol yn gorfforol.
- Gwelliannau mewn ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth: adroddodd staff lleoliadau ddeilliannau cadarnhaol yn gysylltiedig ag ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu yn yr ysgol. Er enghraifft, roedd plant/pobl ifanc a gymerodd ran yn y Treial yn fwy tebygol o fynychu eu lleoliad er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y gweithgareddau ar ôl ysgol.

- 9.24 Arweiniodd y Treial hefyd at ddeilliannau cadarnhaol i leoliadau a staff, gan ei fod yn helpu staff i ddatblygu eu sgiliau eu hunain trwy weithio gyda charfan wahanol o ddysgwyr. Fe gyfrannodd at greu ymdeimlad cryfach o gymuned o fewn lleoliadau a galluogi datblygu perthnasoedd gwell rhwng staff addysgu a dysgwyr.
- 9.25 Amlygodd rhieni/gofalwyr (yn enwedig y rhai mewn gwaith) bwysigrwydd cael lle diogel i'w plant fod ar ôl yr ysgol, lle'r oedd modd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol. Pwysleisiodd rhieni/gofalwyr hefyd bwysigrwydd y ffaith bod y gweithgareddau am ddim ar y pwynt mynediad.
- 9.26 Roedd y sesiynau cyfoethogi yn caniatáu i leoliadau gynnal y berthynas bresennol, ac mewn rhai achosion, adeiladu rhai newydd gyda darparwyr allanol. Un o brif fanteision y sesiynau cyfoethogi i ddarparwyr oedd tâl ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun heriol darpariaeth a oedd wedi arafu'n fawr neu stopio yn ystod y pandemig.

10. Argymhellion

10.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno argymhellion ar gyfer rhaglenni o weithgareddau cyfoethogi i blant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Parhau i gyflwyno'r rhaglen dros yr hir dymor

- Roedd pob grŵp rhanddeiliaid yn argymhell buddsoddiad hirdymor yn y Treial. Byddai cyllid tymor hwy yn helpu i gynnal manteision y treial i blant/pobl ifanc, teuluoedd a lleoliadau am gyfnod hirach. Byddai hefyd yn galluogi lleoliadau i ymestyn yr arlwy i fwy o ddysgwyr.
- Roedd plant a phobl ifanc yn hynod gadarnhaol am eu profiad o'r Treial a hoffent weld y gweithgareddau'n cael eu cynnig yn y tymor hir, ac yn cael eu hymestyn i grwpiau blwyddyn eraill yn eu lleoliadau.
- Roedd arweinwyr lleoliadau'r Treial, staff lleoliadau a darparwyr, plant/pobl ifanc a rhieni yn teimlo bod amseriad y gweithgareddau'n gyfleus (yn bennaf ar ôl ysgol ac weithiau cyn yr ysgol) ac eisiau i weithgareddau barhau i gael eu darparu ar yr adegau hyn.

Amser paratoi hirach ar gyfer cynllunio a sefydlu

- Byddai'r Awdurdodau Lleol wedi hoffi cael mwy o eglurder ynghylch y cynnig a theimlwyd y byddai hyn wedi eu galluogi i roi gwell gyngor a chefnogaeth i leoliadau a oedd wedi mynegi diddordeb.
- Gyda mwy o amser i ddeall arweiniad a darpariaeth y cynllun, awgrymir y gallai mwy o leoliadau fod wedi cymryd rhan yn y Treial.
- Roedd consensws bod angen mwy o amser rhwng cyhoeddi cyllid a lansio'r rhaglen. Byddai hyn yn cefnogi gweithgareddau cynllunio effeithiol gan gynnwys staffio, nodi a recriwtio darparwyr allanol, a chydlynu gyda'r cynnig allgyrsiol presennol.
- Byddai mwy o amser i ddylunio a chynllunio'r ddarpariaeth wedi rhoi rhagor o gyfleoedd i gyd-gynhyrchu'r rhaglen gyda dysgwyr.

Parhau i gynnig hyblygrwydd o ran dylunio a darparu

- Roedd arweinwyr lleoliadau'n croesawu dyluniad hyblyg y rhaglen, a oedd yn caniatáu iddynt deilwra'r Treial i ddiwallu anghenion eu lleoliad.

Gwerthfawrogyd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Gyngorydd y Treial a dylid parhau i'w cynnig mewn rhaglenni yn y dyfodol.

- Roedd lleoliadau'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i ddarparu cludiant, a oedd yn allweddol i ddysgwyr sy'n mynychu'r Treial mewn ardaloedd mwy gwledig. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r opsiwn i ddarparu bwyd, ac i brynu offer all gael ei ddefnyddio y tu hwnt i ddiwedd cyllid y Treial. Dylai rhaglenni yn y dyfodol ystyried y gallu i gefnogi'r agweddau hyn.

Cryfhau cefnogaeth i leoliadau

- Yn gyffredinol gweinyddodd arweinwyr lleoliadau'r Treial yn ychwanegol at lwyth gwaith llawn, heb unrhyw gyllid wedi'i glustnodi am eu hamser. Byddai darparu rhaglenni tebyg yn y dyfodol yn elwa o gynyddu capasiti staff neu ddod ag adnodd ychwanegol i mewn i reoli'r prosesau caffael a chydlynu, er mwyn lleihau'r baich ar arweinwyr lleoliadau.

Gwella cyrhaeddiad a chynwysoldeb

- Dylai fersiynau o'r rhaglen yn y dyfodol ystyried sut y gellir cefnogi lleoliadau i dargedu'r rhai mwyaf agored i niwed, er enghraifft drwy weithgareddau penodol sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr ag ADY, neu drwy sicrhau bod yr opsiynau amseru a chludiant yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gymryd rhan.
- Gallai cyd-gynhyrchu'r rhaglen gyda phlant/pobl ifanc gynyddu eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad, yn enwedig ar lefel ysgolion uwchradd ac AB, gan y byddai'n amlygu rhai o'r rhwystrau i bresenoldeb yn y cam cynllunio, a chynnig cyfle i'w goresgyn.

Argymhellion gwerthuso

- Gall astudiaethau tebyg yn y dyfodol elwa o gynnwys arsylwi gweithgareddau, a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda staff lleoliadau, darparwyr a phlant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Gallai gwerthusiadau o unrhyw weithgareddau tebyg yn y dyfodol gynnwys gwerthusiad effaith i asesu cynnydd tuag at y deilliannau a nodwyd yn llawnach. Gall unrhyw raglenni o natur debyg yn y dyfodol hefyd elwa o gynnwys model rhesymeg i ddarparu dealltwriaeth a rennir o'r gweithgareddau a'r deilliannau a fwriedir yn ogystal â fframwaith ar gyfer gwerthuso.

Llyfryddiaeth

[Comisiynydd Plant Cymru \(2021\). Coronafeirws a Fi.](#)

[Education Endowment Foundation \(2021\). Extending school time](#)

[Education Policy Institute\). Education recovery and resilience in England](#)

[The Children's Society, 2020. The impact of COVID-19 on children and young people](#)

[Senedd Cymru, 2021. Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc](#)

[YoungMinds \(2021\). The impact of COVID-19 on young people with mental health needs](#)

Atodiad 1. Offer ymchwil

Canllaw i bynciau'r cyfweiliad ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch randdeiliaid

Cefndir – amdanyn nhw / y Treialon o'r Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol

- Rolau a chyfrifoldebau
 - Rôl swydd, sefydliad, (braslun o) gyfrifoldebau
 - Cyfranogiad yn y Treialon a/neu sut mae'n cyd-fynd â'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli
 - Gwiriwch a ydyn nhw'n ymwneud â GLIL
- Trosolwg o'r rhaglen a'r model ariannu
 - Pam mae angen y Treial yn awr
 - Yr hyn yr ydych yn ei ddeall i fod yn amcanion strategol y rhaglen
 - Sut y bwriedir iddo weddu i, ac adeiladu ar, fentrau ymadfer yn sgil Covid-19 eraill

Dylunio a sefydlu'r rhaglen

- Sut y dyluniwyd y rhaglen? (ar gyfer LIC yn unig)
 - Beth oedd yr egwyddorion / cefndir
- Sut y bwriedir gweithredu'r rhaglen
 - Pam mae ei angen?
 - Sut mae'n cydweddu â'r ddarpariaeth bresennol
- Y broses ymgeisio
 - Sut y cyfathrebwyd y Treial i ysgolion?
 - Y broses ymgeisio/dethol
 - Sut y cytunwyd ar lefelau ariannu?
 - Beth a weithiodd yn dda/a allai fod yn well ynghylch y broses hon?
 - Rhesymau i ALI/ysgolion gymryd rhan/peidio â chymryd rhan
- Cefnogaeth i ysgolion/collegau sy'n cyflwyno'r Treialon
 - Arweiniad a gwybodaeth
 - Beth a ddarparwyd?
 - Sut a phryd y cafodd gwybodaeth ei chyfathrebu?
 - Sut mae ysgolion/Colegau wedi ymateb?
 - Ymchwiliwch i werth rhoi hyblygrwydd i ysgolion o ran cyflwyno o'i gymharu â dull rhagnodol
- Grwpiau targed

- Pwy y mae'r Treial yn anelu at eu cyrraedd a pham
 - Pam mae cyfranogiad ysgolion, a PPI o fewn yr ysgolion sy'n cymryd rhan, yn wirfoddol?
- Y gyfradd cymryd rhan
 - Ymrestru a phresenoldeb
 - A oedd grwpiau penodol o ddysgwyr yn fwy/llai tebygol o ymgysylltu? Os oedd, pwy? Pam?
- Ystyriaethau o ran:
 - cyrraedd y rhai sydd fwyaf o dan anfantais
 - hygyrchedd a darpariaeth gynhwysol (e.e., PPI du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, PPI ag anghenion ychwanegol, darpariaeth iaith Gymraeg)
- Gweithgareddau
 - Pa weithgareddau sydd o fewn / y tu allan i gwmpas y Treialon a pham?
 - Sut mae sgiliau academaidd craidd yn cael eu hymgorffori yn y ddarpariaeth?
 - Beth sy'n newydd/gwahanol am y Treialon o'i gymharu â darpariaeth bresennol a blaenorol?
- Cyflwyno
 - A wnaeth y cyflwyniad redeg fel a ddisgwyliwyd / a fwriadwyd?
 - Beth fu'r prif ffactorau rhwystro / galluogi gweithredu?
 - A oedd y Treial yn apelio at ddysgwyr ac athrawon/darparwyr - neu a fyddent wedi hoffi cael math gwahanol o gefnogaeth/gweithgaredd?
 - A fu'n rhaid i'r ysgol wneud newidiadau i'w cynllun / dyluniad yn ystod y broses gyflwyno?
 - Pa newidiadau a pham?

Deilliannau/effeithiau disgwylidig y Treial

- Deilliannau tymor byr a thymor hwy ar gyfer **dysgwyr**
 - dysgu -sgiliau craidd
 - llythrennedd
 - rhifedd
 - cymhwysedd digidol
 - sgiliau nad ydynt yn wybyddol:
 - hwyl / mwynhad
 - hyder personol
 - ymwneud â'r ysgol/dysgu
 - sgiliau cymdeithasol
 - lles corfforol
 - lles meddyliol
 - Datblygu sgiliau ehangach - gwaith tîm, cyfathrebu, sgiliau gwrando, meddwl yn greadigol, arweinyddiaeth

- Arall
 - Gwahaniaethau o ran deilliannau fesul grwpiau dysgwyr (grŵp blwyddyn, rhyw, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig ac anabledau etc)
 - Unrhyw ddeilliannau annisgwyl neu anfwriadol
- Archwiliwch unrhyw ddeilliannau ar gyfer
 - Ysgolion / athrawon / cynorthwyr dysgu etc
 - Rhieni / teuluoedd
 - Darparwyr trydydd parti
 - Unrhyw ddeilliannau annisgwyl neu anfwriadol
 - Ystyriaethau yn y camau cynllunio/gweithredu i sicrhau cynladwyedd y ddarpariaeth a'r deilliannau
 - Canfyddiadau ynghylch etifeddiaeth bosib ar gyfer yr ysgol – e.e., offer, adnoddau, capasiti ar safle'r ysgol, ymagwedd at gynllunio darpariaeth allgyrsiol, cydweithio rhwng ysgolion, cysylltiadau cymunedol ehangach, amser ychwanegol.

Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

- Myfyrio ar ddatblygiad y rhaglen
 - Beth aeth yn dda
 - Materion allweddol/digwyddiadau annisgwyl a effeithiodd ar gynllunio neu gyflwyno
 - Gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu a sefydlu'r Treialon
- Unrhyw fyfyrddod pe bai estyniad y diwrnod ysgol yn cael ei gynnig yn y tymor hir? Holwch: materion ymarferion, deilliannau posib
- Ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi cynllunio a gweithredu'r rhaglen hyd yma
 - Beth yw'r ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi, ac ar gyfer pwy?
 - Amserlenni
 - Cyd-destun Covid-19
 - Pa wersi a ddysgwyd ar gyfer polisi ac arfer
- Ystyriaethau yn y camau cynllunio/gweithredu i sicrhau cynladwyedd y ddarpariaeth a'r deilliannau
- Argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol
 - Polisi ac arfer cenedlaethol
 - Polisi ac arfer lleol
 - Cefnogi darparwyr

Canllaw i bynciau'r cyfweiliad ar gyfer arweinwyr ysgolion

Cefndir – amdanyn nhw a'u cyfranogiad yn y treial

- Rolau a chyfrifoldebau
 - Rôl swydd, ysgol/coleg, (braslun o) gyfrifoldebau arferol
 - Cyd-destun lleol eu hysgol/coleg
 - e.e., anghenion dysgwyr, cymuned leol, cau oherwydd Covid-19
 - Cyfranogiad a chyfrifoldebau yn y treial
 - Gwiriwch a ydynt hefyd yn ymwneud â/bod ganddynt gyfrifoldebau ehangach yng ngweithgareddau'r Gaeaf Llawn Lles

Y broses ymgeisio

- Trosolwg o sut y penderfynodd yr ysgol wneud cais am fod yn rhan o'r treial
 - Sut y clywon nhw am y treial
 - Pwy oedd yn rhan o'r broses benderfynu
 - Rhesymau/ cymhellion dros wneud cais
- Myfyrio ar y broses ymgeisio
 - Gwybodaeth am broses ymgeisio'r treial
 - Cefnogaeth/cyfranogiad LIC
 - Cwblhau'r mynegiad o ddiddordeb
 - Cyfathrebiadau am y canlyniad
 - Beth a weithiodd yn dda/a allai fod yn well ynghylch y broses hon

Dylunio a sefydlu'r treial

- Trosolwg o sut y bu i'r ysgol drefnu rhaglen y treial
 - Pwy oedd yn ymwneud â'r cynllunio
 - Eich sefydliad
 - Ysgolion eraill ar y treial
 - Cynghorwyr LIC fu'n ymwneud â Dylunio a Chyflwyno'r Treial
 - Unrhyw bartneriaid eraill – archwiliwch a yw'r rhain yn gysylltiadau newydd neu rai a fu'n bodoli eisoes
 - Cyfranogiad dysgwyr a theluoedd wrth gynllunio pa weithgareddau y dylid eu cynnig
 - Beth oedd fwyaf / leiaf defnyddiol yn y broses gynllunio
- Trosolwg o sut y gwnaeth yr ysgol ddylunio rhaglen y treial
 - Pa grwpiau blwyddyn ydych chi'n canolbwyntio arnynt a pham
 - Estyniad – cyn / ar ôl y diwrnod ysgol – sail resymegol dros hyn
 - Cyllid – a oedd y lefel yn briodol? A yw'r cyllid yn ddigonol i gyflwyno'r gweithgareddau? A allent fod wedi darparu rhaglen debyg gyda llai o gyllid?

- Rhannu darpariaeth staff ysgol fewnol a darpariaeth trydydd parti allanol
 - Nifer y staff a'r darparwyr dan sylw
 - Y broses gaffael – e.e., rhaniad y darparwyr newydd o gymharu â'r rhai presennol
 - Pam wnaethoch chi benderfynu dyrannu darpariaeth i staff/darparwyr allanol fel y gwnaethoch? (e.e. pryderon am lwyth gwaith staff, y berthynas bresennol â darparwyr)
- Sut mae'r cynllun treial yn gweddu i'r canlynol:
 - Heriau a chyfleoedd sy'n cyfuno treialu ag ymagweddau blaenorol at gydlynu darpariaeth ysgolion allgyrsiol a gweithgareddau GLIL ehangach sy'n rhedeg yn yr ysgol a'r gymuned
 - mentrau ymadfer yn sgil Covid-19 eraill yn yr ysgol/cymuned
- Cyfathrebiadau a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru
 - Cyfathrebiadau / cefnogaeth a dderbyniwyd
 - Arweiniad
 - Cynghorwyr LIC fu'n ymwneud â Dylunio a Chyflwyno'r Treial
 - Cyfarfodydd
 - A yw'r rhain wedi bod yn fuddiol / defnyddiol
 - A oes unrhyw fylchau yn yr wybodaeth / cefnogaeth
 - Awgrymiadau ar sut i wella
- Ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi cynllunio a gweithredu hyd yma
 - Beth yw'r ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi, ac ar gyfer pwy
 - Amserlenni
 - Cyd-destun Covid-19
 - Ymgysylltu â dysgwyr
 - Ymgysylltu â theuluoedd
 - Ymgysylltu â darparwyr trydydd parti
